

ECO'R WYDDFA

RHIF 353


MAWRTH 2008

PRIS 40c

Yn y Rhifyn Hwn...

- Atgofion Hen 'Sgotwr – tud. 12
- Portreadau
Dr Dan Rowland Hughes – tud. 7
- Joni Ni tud. 16

Nid i LA ond i LAnberis!



FEL y clywsoch eisoes, mae tua 200 yn fwy o swyddi i ddod i Seimens Healthcare yn Llanberis, gan gynyddu'r gweithlu i dros bum cant. Mae hanes diddorol i sut y daeth y cwmni yma i Lanberis yn y lle cyntaf.

Daeth Osborne Jones o Landwrog i gysylltiad ag Evan Parry o'r Ceunant i drafod y syniad o greu offer diagnostig electronig. Mae'r ddau yn enedigol o Garndolbenmaen ac felly'n adnabod ei gilydd. Biocemeg yw maes Osborne ac arbenigedd Evan yw electroneg. Roedd Evan, yntau, yn adnabod Gwyn Jones (diweddar fab R. E. Jones – cyn-brifathro ysgol Dolbadarn) ac yntau â dawn ym maes Cyfrifiadureg. Daeth y tri ynghyd i sefydlu cwmni Alpha Beta.

Cychwynnwyd y cwmni gan y tri yng ngwanwyn 1979 i greu peiriant prototeip. Eu pwrpas oedd greu offer mesur gweithgaredd ensymau a chael yr ateb o fewn munud. Y bwriad oedd adeiladu offer 'syml' i greu prawf dibynadwy ar un sampl. Roedd sawl labordy yn gallu dadansoddi nifer fawr o samplau ar y tro, ond dim byd ar gyfer profi un sampl yn gyflym. Dyma eni'r peiriant 'Alpha 340'. Roedd ganddynt rywbeth i'w ddangos i'r byd, ond yn bwysicach, rhywbeth i'w ddangos i fuddsoddwyr er mwyn ehangu'r cwmni.

Tyfodd cwmni Alpha Beta yn Alpha Dyffryn Cyfyngedig, gyda bwrdd rheolaethol ac – yn bwysicach fyth – buddsoddwyr.

Cychwynnwyd yn hen adeilad Sain yn Llandwrog – y tri rheolwr

ac un gweithiwr cyflogedig, sef John W. Jones. Yna symud i safle Gronant yng Nghaernarfon, ac yna ymlaen i safle mwy eto yn y Felinheli. Erbyn hynny roedd tua 40 yn gweithio yno. Roedd y cwmni yn llewyrchus ac yn ennill ei blwyf yn y maes arloesol hwn o gynllunio peiriannau hunan-reoledig i wneud profion biogemegol yn gyflym ac yn fanwl gywir.

Yn 1991 dyma gynnig yn dod i brynu ADC gan Diagnostic Products Corporation o Los Angeles yn America. Roedd hwn yn gwmni mawr yn y maes yma, gyda bwriadau uchelgeisiol ar gyfer datblygu pethau yng Nghymru.

Roedd gan fwrdd Alpha Dyffryn syniadau cadarn am reoli'r datblygiadau pe bai'r Americanwyr yn cymryd drosodd yn Llanberis. Rhaid oedd i unrhyw ddatblygiad aros yn yr ardal a rhaid oedd cyflogi'n lleol. Yn anffodus, gan fod y fenter bellach allan o ddwylo'r sylfaenwyr, aeth y fenter rhagddi gydag adeiladydd o Gaergrawnt. Aeth hwnnw yn fethdalwr, gan adael nifer o gwmnïau bychain lleol ar eu colled.

Pam dewis Llanberis? Wel, roedd Dr. Watson (yr un a ddarganfyddodd DNA) ar fwrdd rheoli Euro DPC. Roedd yn gerddwr mynydd brwd, ac am hynny dewiswyd Llanberis i adeiladu'r ffatri.

Yn 2006, cymerodd Siemens Healthcare, cwmni anferthol o'r Almaen, y gwaith trosodd. Eu penderfyniad nhw oedd creu 200 o swyddi ychwanegol yn Llanberis yn hytrach nag yn Los Angeles. Bydd y swyddi hyn yn cynnwys gweithwyr llawr ffatri, technegwyr a gwyddonwyr. Gobeithir llenwi y rhan fwyaf o'r rhain gyda gweithwyr lleol.

Ers sefydlu Euro DPC yn Llanberis mae o leiaf bump o'r gweithwyr wedi arbenigo yn ddigonol mewn gwahanol feysydd, fel eu bod wedi mentro creu eu cwmnïau eu hunain.

Yn ôl y rheolwr cyffredinol, Steve Britton, bydd y datblygiad hwn yn sicrhau dyfodol y safle am flynyddoedd i ddod.

Diolch felly am weledigaeth Osborne a dycnwch Evan a Gwyn. Cychwyn gyda thri a gorffen gyda phum cant!



Pedwar o'r pum cyfarwyddwr cyntaf ar ADC. O'r chwith: Osborne Jones (Sylfacnydd a chyfarwyddwr), Sam Tata (ymgyngorydd), Dafydd Wigley (cyfarwyddwr), Evan Parry (Sylfacnydd a chyfarwyddwr) a John Llywelyn Jones (cyfarwyddwr). Yn anffodus nid oedd Gwyn Jones yn bresennol.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 353
MAWRTH 2008**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost
alwena@gwasggwynedd.com
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

DYDD LLUN, 17 MAWRTH

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 27 MAWRTH

Dyddiad Gosod

SUL 23 MAWRTH am 5.00

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Ebrill	17 Mawrth	27 Mawrth	Cwm y Glo	Iris Rowlands	872 275
Mai	21 Ebrill	1 Mai	Deiniolen	Glyn Griffith	872133

Llythyr

Annw'l Mistar Golygydd golygus,
Mi 'r ydw' i, a'm mam Martha, ishio eich llongyfarch am ddarparu papur bro mor amrywiol ei ddeunydd. Diolchiadau hefyd i'r rhai sy'n gosod a phlygu *Eco'r Wyddfa*. 'R ydan i gyd yn mwynhau darllen 'Draenogiaid'. Flynyddoedd yn ôl mi 'r oeddwn mewn siop torri gwalltia' ym Mlaenau Ffestiniog; siop hefo plu a gêr pysgota'n ca'i eu gwerthu yno. Perchennog y siop ydoedd Mistar Dafis, un difyr tu hwnt, ac yn barod i siarad hefo pawb, ac o weld poster uniaith Gymraeg wedi ei osod ar ei ben i lawr ar y mur mi fentrais ofyn iddo paham Mistar Dafis fod y poster ar ei ben i lawr? Cofiaf ef yn ateb: 'Diawl 'rio'd hogyn petawn wedi gosod y postar ar i fyny, ni fyddai neb wedi ei ddarllen.' Hoffwn petae darllenwyr *Eco'r Wyddfa* yn danfon storïau doniol, llawn difyrrwch, i'r papur bro. Gwelaf fod digon o ddarllen a diddordeb yn y papur.

Felly hwyl,
oddi wrth Wil,
mab Martha plu chwithig
Cae clwt, Dinorwig

Enwau'r Bandwyr

Yn dilyn cais am wybodaeth ynglŷn â llun y Bandwyr yn rhifyn Chwefror o'r *Eco*, derbyniwyd y wybodaeth ganlynol gan un sy'n ymddangos yn y llun, sef Ernest Owen, Llanberis.

★ ★ ★

Band Llanberis yw, wedi ei dynnu ar Gae'r Ddôl, ar ddiwrnod Carnifal, 1948/52 gydag enwau'r aelodau fel â ganlyn:

(Rhes gefn): Eban Wyn Humphreys, George C. Parry, John Roderick Jones, Idwal Wyn Jones, Hayden Holland.

(Ail res): William Roscoe (Bandmaster), ?, William (Wil Dre), William Roberts (Wil Becar), William Owen Jones (Drymar), Cbris Hughes, Owie Williams, Evie Parry, Richie Morris.

(Rhes flaen): Ernest Owen, Robert Thomas (Robin Corni), Martin Owen, John Elias Hughes, Gordon Ward, John Gwilym Evans.

6 Heol Edward
Caernarfon

Annwyl Olygydd,
Mae yn fy meddiant raglen 'Eisteddfod Gadeiriol y Waunfawr' dyddiedig 31 Mawrth ac 1 a 2 Ebrill 1960. Os yw o ddiddordeb y beirniaid oedd:
Cerdd: Dr Leslie Wynne Evans MA, PhD, Caerdydd;
Llên: Y Parch Gwyn Erfyl Jones, Trawsfynydd;
Arholiad Ysgrythurol: Y Parch Emrys W. Thomas, Bontnewydd;
Celf: Miss Katie Jones, Y Waunfawr, a Mr John Hughes Roberts, Y Waunfawr;
Cyfeilydd: Mr G. Peleg Williams LRAM, Caernarfon.

Roedd rhai o'r cystadlaethau yn gyfyngedig i'r capel; rhai yn rhydd i'r ardal ac eraill yn rhydd i'r byd. Gwobr orau yr eisteddfod ydoedd £3 10s - sef y brif adroddiad, gyda chwpan arian a £1 10s (rhoddedig gan Roberts & Owen, Caernarfon), a'r isaf oedd y drydedd wobwr o swllt am unawd (o 5-7 oed).

Yn yr amodau golygai'r 'ardal' Gaeathro, Ceunant, Salem a Rhyd-ddu. Paratoid te am bris rhesymol ar y pnawn Sadwrn ac, fel rheol, byddai rhyw anturiaethwr hefyd yn bresennol gyda'i stondin 'hot dogs' a da hynny gan y byddai corau meibion a chorau cymysg wedi trafaelio cryn bellter i gystadlu.

Ym mantolen Eisteddfod 1959, dangoswyd elw o £10 12s 1d. Talwyd £23 6s 6d i'r beirniaid; £5 14s 0d i'r cyfeilydd a £1 am diwnio'r piano.

Hwyrach fod pobl yn meddwl fod llawer o ddiniweidrwydd yn perthyn i'r ardal hanner can mlynedd yn ôl. Yn sicr, roedd llawer o bobl yn rhoi yn rhydd o'u hamser a'u hegni er sicrhau llwyddiant yr eisteddfod, ac yn sicr ni ddaw y fath amser yn ôl eto.

J. RHYD HUMPHREYS

RHODDION

£25: Er cof am Gwladys Medwen Jones, Y Dalar Deg, Llanrug, gan Beryl a Gareth.

£20: Di-enw Deiniolen.

£10: Gareth Tate a'r teulu, Deiniolen.

£5: Mrs Blodwen Pritchard, Llys y Gwynt, Penisarwaun; Mr a Mrs Owen, Hafod y Rhos, Llanrug; Diane Jones, Clwt y Bont, Deiniolen.

Theatr Bara Caws Y GOBAITH A'R ANGOR gan Dylan Rees

Bydd cynhyrchiad nesaf Theatr Bara Caws yn yr ardal hon ar y dyddiadau isod:

Galeri, Caernarfon

Nos Fercher, 26 Mawrth

Theatr Gwynedd, Bangor

Nos Wener, 28 Mawrth

Nos Sadwrn, 29 Mawrth

Mae Dylan Rees, sy'n sgwennu i'r cwmni am y tro cyntaf, yn cyflwyno criw o gymeriadau trist a ffraegar wrth iddynt ryggu byw o ddydd i ddydd dan gysgod anobaith a phwysau beunyddiol mewn byd sy'n gwegian. Mae'r ddeialog yn fyw ac yn tincial fel y gwydrau sy'n prysur wagio, a phob un o'r cymeriadau yn chwilio am ateb gwahanol yn ewyn chwerw gweddillion eu breuddwydion.

Yn llawn hiwmor tywyll, deialog sy'n diferu o fwg y snyg a phigiadau miniog y darts, mae'n addo noson yng nghwmni cymeriadau sy'n gyfarwydd i ni i gyd, fydd yn aros yn hir yn y cof.

Yr actorion yw Gwenno Elis Hodgkins, Dyfrig Wyn Evans, John Glyn, Owen, Hyw Llŷr a Gwyn Vaughan, a bydd Maldwyn John yn cymryd y llyw fel cyfarwyddwr.

Cysylltwch â:

Linda Brown ar (01286) 676335
neu tbaracaws@btconnect.com

**BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD**

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



**Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun**



Y SAMARIAID
(01248) 674985

Cynllun Efe

Wedi tair blynedd o gynllunio mae pwyllgor Cynllun Efe yn gobeithio penodi gweithiwr ieuencid Cristnogol ar gyfer dalgylch *Eco'r Wyddfa*. Gwelir hysbyseb ar gyfer y swydd newydd yn y rhifyn hwn o'r *Eco*.

Cafwyd cydweithio arbennig o dda ymysg aelodau'r pwyllgor ers iddo gael ei ffurfio gyntaf, a charwn ddiolch i'r rhai a fu'n ffyddlon i'r cyfarfodydd dros y tair blynedd. Mae cnewyllyn o chwech neu saith o bobl wedi bod yno o'r cychwyn, ym mhob cyfarfod fwy neu lai, a diolchwn yn arbennig iddynt hwy am eu brwdfrydedd a'u gwaith caled. Mae eraill wedi ymuno â'r criw ar hyd y ffordd, ac mae eu cyfraniad hwythau wedi bod yn werthfawr. Cawsom gwmni rhai eraill mewn ambell i gyfarfod. Wrth i'r gwaith ddatblygu, byddwn yn gwahodd eraill eto i ddod yn rhan ohono trwy gynorthwyo'r gweithiwr newydd a thrwy wasanaethu ar rai o'r pwyllgorau y bwriadwn eu ffurfio er mwyn cefnogi'r gwaith.

Roedd y nod ariannol o £78,000 er mwyn cynnal y swydd a'r gweithgarwch dros gyfnod cychwynnol o dair blynedd yn ymddangos yn un anodd ei gyrraedd, ond mae'n braf cael dweud ein bod yn hyderus o'i gyrraedd erbyn hyn. Mae'r diolch am hynny i'r enwadau a'r mudiadau a'r cynghorau a'r eglwysi a'r unigolion sydd wedi ymateb mor hael i'n cais am gymorth. Yn fras, cawsom un rhan o dair o'r arian gan ymddiriedolaethau (yn cynnwys Ymddiriedolaeth Pantyfedwen, a roes gychwyn mor dda i ni); un rhan o dair gan yr enwadau yn genedlaethol a rhanbarthol; ac un rhan o dair gan eglwysi ac unigolion a mudiadau lleol.

Mae'r angen am arian yn parhau, a daliwn i groesawu pob

rhodd, fawr neu fach, at waith Efe. Bydd angen arian ar gyfer gwahanol weithgareddau, wrth gwrs, ond ein gobaith yw gweld y swydd yn llwyddo fel bod modd ei pharhau ymhellach na'r tair blynedd gychwynnol. Mewn gwirionedd, mae'r gwaith o godi arian ar gyfer y bedwaredd a'r bumed flwyddyn yn ein hwynebu erbyn hyn!

Yr ydym yn chwilio am berson egniol o argyhoeddiad Cristnogol cryf i helpu eglwysi'r fro hon i genhadu'n effeithiol ymhlith plant a phobl ifanc ein bro. Ardal *Eco'r Wyddfa* fydd dalgylch y gwaith. Bwriadwn i'r gweithiwr newydd gydweithio â ni er mwyn cyflwyno'r Arglwydd Iesu Grist i'r plant a'r bobl ifanc. Gwyddom am gynlluniau tebyg mewn mannau eraill yng Nghymru sydd wedi profi bendith a llwyddiant y blynyddoedd diwethaf yma. Yr ydym wedi ceisio dysgu oddi wrthynt, ac mae'n siŵr y gallwn wneud hynny eto pan fyddwn wedi penodi gweithiwr. Gwyddom hefyd y bydd arnom ni, fel eglwysi a chyfeillion i'r gwaith, gyfrifoldeb i gynnal a chefnogi'r a chydweithio â'r gweithiwr newydd.

Gobeithiwn allu penodi gweithiwr yn erbyn diwedd Ebrill neu ddechrau Mai. Gall union amser cychwyn y swydd ddibynnu, wrth gwrs, ar amgylchiadau'r person a benodir.

Ond ar hyn o bryd, carwn eich gwahodd i ymuno â ni i weddio dros yr hyn sydd o'n blaen ni'r mis neu ddau nesaf. Gweddïwch dros bawb a fydd yn gweld yr hysbyseb ac yn ystyried ymgeisio am y swydd; gweddïwch dros y rhai a gaiff eu gwahodd i gyfweiliad; a gweddïwch dros y rhai ohonom a fydd yn cyfweild yr ymgeiswyr. Trwy'r cyfan, gweddïwch y bydd Duw yn ein harwain i benodi gweithiwr a fydd yn ein helpu i gyflwyno'r Efengyl i'n plant a'n pobl ifanc er clod i'r Brenin Mawr.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Blwyddyn 6 ym Mhlas Tan y Bwlch.

YSGOL CWM Y GLO

Rydym yn croesawu Lois Morgan atom fel myfyriwr TAR, a braf yw dweud fod Dosbarth Llydaw wrth eu bodd yn ei chwmmi.

Cawsom ddau ymweliad gan Techniquet, un gweithdy ar Rymoedd a'r llall ar Y Goedwig. Cafodd y plant fudd mawr o'r ddau weithdy ymarferol hyn.

Roedd y plant, y rhieni a'r staff yn drist iawn wrth ffarwelio gyda 'Anti Llinos', sef Mrs. Llinos Davies-Jones, ein hysgrifenyddes. Mae bellach yn ei swydd newydd yn Ysgol Feithrin Llanrug ac rydym yn dymuno'n dda iddi yno.

Erbyn hyn mae gennym 'Anti Meinir' yn y swyddfa, sef Mrs. Meinir Jones o Fethel. Croesawn hi atom ac edrychwn ymlaen i gydweithio yr un mor hapus gyda hithau.

Cafodd Blwyddyn 6 fynd i aros dros nos i Blas Tan y Bwlch, Maentwrog. Roedd cyfle i ddysgu llawer am yr hanes lleol ac ymweld â Chastell Harlech a'r traeth ar y diwrnod cyntaf. Ar yr ail diwrnod aethom o amgylch Beddgelert cyn mynd i gerdded hyd at Lyn Llydaw ar Yr Wyddfa. Roedd y plant wedi cael amser bendigedig - ewch draw i'r wefan i weld rhai o'r lluniau.

Cawsom brynhawn difyr yng ngwmni Trevor Delmarr o Syrcas Delmarr. Bu'n dangos ac yn dysgu sgiliau syrcas i'r disgyblion. Diolchwn i Miss Stephanie am roi help llaw iddo!

Carai'r Ysgol ddiolch yn fawr iawn i Menter Fachwen am eu cyfraniad hael tuag at brynu piano electroneg i'r ysgol. Mae wedi cael ei defnyddio yn barod.

Bellach mae'r ysgol wedi cofrestru fel Eco Ysgol ac wedi ethol pwyllgor o blith y disgyblion. Fel rhan o'r cynllun yma rydym wedi cychwyn casglu gwastraff y Siop Ffrwythau a mynd â fo draw i

Menter Fachwen i gael ei gompostio. Diolchwn iddynt am eu croeso.

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd y Cyfarfod Blynyddol yn yr ysgol Gymuned nos Lun, 4 Chwefror. Croesawodd Arweinydd y gangen, Mrs Dorothy Jones, pawb i'r cyfarfod a dechreuwyd gyda gwasanaeth byr. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod gafwyd llynedd a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Cafwyd adroddiad gan Dorothy am y cyfarfodydd ar hyd y flwyddyn a diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth. Cafwyd adroddiad gan y Trysorydd, Mrs Joyce Ransom am y sefyllfa ariannol.

Ethol Swyddogion. Cynigiwyd fod y swyddogion yn gwneud eu gwaith am flwyddyn arall. Arweinydd y Gangen: Mrs Dorothy Jones; Ysgrifennydd: Mrs Hilda Orritt, a chytunodd y ddwy. Mae y Trysorydd, Mrs Joyce Ransom, am roi ei swydd i fyny. Cytunodd Miss Meira Williams i wneud y gwaith a chael cymorth gan Joyce. Ymwelydd y Cleifion (Llanrug): Mrs Enid Taylor; (Cwm-y-glo): Meira Williams.

Trafodwyd rhai materion gan Dorothy. Diolchwyd i Mr Peter Taylor am archwilio adroddiadau y Trysorydd. Darllenwyd e-bost wedi ei dderbyn oddi wrth Mrs Margaret Latham o Florida, a hefyd lythyr wedi ei dderbyn oddi wrth y Chwaer Monica, Ysbyty Gwynedd, yn diolch i'r gangen am anfon dillad i fabanod bach wedi eu geni'n gynamserol. Trafodwyd materion a godwyd ym mhwyllgor y Cyngor a gynhaliwyd ym Mangor ym mis Tachwedd.

Trefnwyd rhaglen am y tymor. Y gwesteion oedd Mrs Marjorie Roberts a Meira. Hwy hefyd roddodd y raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Kathleen Jones. Diolchwyd i'r gwesteion gan Mrs Gwyneth Roberts. Terfynwyd trwy adrodd y Gras.

Gweithiwr Ieuencid Cristnogol

Mae cynllun cydenwadol EFE (Efengyl i Fro'r Eco) yn chwilio am swyddog egniol, brwdfrydig ac o argyhoeddiad Cristnogol i ddatblygu gwaith plant ac ieuencid yn ardal y papur bro *Eco'r Wyddfa* (yng nghyffiniau Caernarfon).

- Oriau gwaith: 37 awr yr wythnos;
- Cyflog: £18,000 y flwyddyn a chostau yn ychwanegol;
- Swydd Llawn Amser am 3 blynedd yn y lle cyntaf.

Manylion pellach a ffurflen gais gan:

Y Parch Dafydd Hughes, Llain Gwyn, 14 Brynrhos Rhosbodrual, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2BT

(01286) 676356 • dafydd@llaingwyn.wanadoo.co.uk

Dyddiad Cau: 5.00 y pŵn, dydd Mercher 26 Mawrth 2008.

CHWILOTA

PORTHMYN A CHIGYDDION LLANRUG A CHAERNARFON



Yn y cyfnod cyn bod sôn am gloddio llethrau'r Elidir am lechi, a chyn bod cloddio am gopr wedi cychwyn o ddifrif yn ardal Bwlch Llanberis a llethrau'r Wyddfa, amaethu oedd prif waith holl drigolion yr ardal hon. Roedd magu gwartheg yn aml yn bwysicach na chadw defaid, a byddid yn eu gwerthu i Loegr. Roedd yn angenrheidiol felly i gerdded y gwartheg yr holl ffordd i'r marchnadoedd cig yn Llundain, a gwaith y porthmon oedd gwneud hynny. Roedd ambell un hefyd yn gweithredu fel cigydd yn ei ardal ei hun, ac yn cyflenwi'r farchnad leol. Mae cryn nifer o borthmyn wedi byw o fewn yr ardal, ond dyma hanes un teulu, a fu'n borthmyn ac yn gigyddion, sef teulu Cae Siencyn, Llanrug.

Cysylltir Owen Prichard â Bryn Clochydd, sef poncan o dir ar fferm Drws Ddeugod yn yr hen amser. Mae'r boncan yn dal yno heddiw, ond diflannodd adfeilion yr hen furddun bellach. Symudodd Owen Prichard a'i deulu i fyw i Bryn Siencyn, neu Cae Siencyn fel y galwyd ef yn ddiweddarach. Roedd yr eiddo yn rhan o stâd Plastirion, a theulu Rowlands oedd y landlordiaid.

Tir gwyllt a garw oedd tir Cae Siencyn ar y cychwyn, ond fe'i hadfeddiannwyd oddi ar y comin a'r mynydd gan Owen Prichard a'i dylwyth. Un anfantais fawr ynglŷn â'r daliad oedd diffyg dŵr, a chafwyd caniatad yr hen yswain, John Rowlands, i dyllu pydew ar y tir. Robert Owen, mab Owen Prichard, fu'n gyfrifol am dyllu'r pydew, a daeth y denantiaeth i'w feddiant ar farwolaeth ei dad. Yn ei ddilyn yntau, daeth ei fab hynaf, Robert Robert Owen, a phrynwyd y tyddyn gan y teulu oddi ar stâd Plastirion.

Porthmyn, amaethwyr a chigyddion oedd yr holl deulu – yn feibion a brodyr. Cydnabyddid hwynt oll fel dynion craff a medrus iawn, yn arbennig i adnabod anifail. Michael Owen, a ddaeth i amaethu fferm Glanrafon, Pontrug, oedd y porthmon mwyaf o'r teulu, a'r craffaf hefyd yn ôl tystiolaeth. Yr oedd hefyd yn gryn dipyn o feddyg anifeiliaid.

Roedd y cyfan ohonynt yn ddynion cryf eithriadol, a gallai Dafydd Owen, Dolgynydd, godi sachaid o flawd ceirch ar ei ysgwydd ag un llaw. Roeddent oll yn trin anifeiliaid, ac yn ddigon nerthol i ddymchwel eidion drwy afael yn ei gyrn a'i droi ar y llawr.

Roedd Owen Prichard, Cae'r maen, hefyd yn un o wyrion Owen Prichard, ac yn dilyn ei dad a'i daid fel clochydd yn eglwys Llanrug. Ni bu ganddo fawr o gysylltiad â gwaith cigydd, ond roedd yn ŵr amryddawn, yn ganwr da ac yn gerddor. Bu'n arwain y côr yn eglwys y plwyf, yn aelod o fand cynnar Llanrug, ac yn arweinydd arno am gyfnod byr. Roedd hefyd yn storiwr tan gamp, yn llawn hiwmor, ac yn treulio llawer o'i amser yn nhafarndai Caernarfon yn diddori morwyr oddi ar y llongau hwylio gyda'i storïau a'i ganeuon. Hwn yn sicr oedd un o ganwyr pop cynnar y frol!

Priododd yr Owen Prichard gwreiddiol â merch o Lanbedr Goch, Môn, ac yn ôl traddodiad roedd gwaed Gwyddelig yn y teulu. Dywedir mai ef oedd y clochydd

sefydlog cyntaf yn eglwys Llanrug, a bu ef a'i fab, Richard, yn glochyddion am bedwar ugain a thair o flynyddoedd. Bu Owen Prichard Bryn Siencyn farw yn 1830 yn 78 oed, ac ar gofnod ei gladdu yng nghofrestr Llanrug ysgrifennodd y rheithor, y Parch Peter Bailey Williams: *'nearly 50 years a Parish Clerk. A strictly honest man and a person greatly beloved in his life and lamented on his death. Offerings at the funeral were £7-12-6.'* Dyna deyrnged haeddiannol i'r hen gigydd a chlochydd.

Cafodd Richard Owen, ei fab, strôc tra'n agor bedd a bu farw mewn tridiau. Olynwyd ef gan ei fab yntau, Owen Prichard, Cae'r maen. Pan fu ef farw, gwrthododd ei fab, Owen Owen Prichard, â chymryd gwaith y clochydd ymlaen, a darfu'r glochyddiaeth yn y teulu.

Roedd gan Owen Prichard, Cae Siencyn, saith o feibion ac yr oedd pump ohonynt yn dilyn galwedigaeth eu tad, sef amaethu a chigydda. Roeddent yn cadw lladd-dy ar y fferm, ac yn gwerthu'r cig yn Neuadd y Farchnad yng Nghaernarfon. Y meibion oedd: Dafydd Owen, Dolgynydd; Pontrug; John Owen, PenGREUOR; Richard Owen (clochydd); Owen Owen, Tyddyn Rhyddid; Gruffydd Owen, Llwyn Brain; Hugh Owen, Pontrug a Robert Owen, Cae Siencyn.

Yn ifanc, bu Dafydd Owen yn ymladdwr ffyrnig, a dywedir y



Teulu Pen y Bwlch, Cwm y Glo.

gallai guro dau ddyn ar unwaith. Yn ddyn balch, roedd yn troi ymhlith rhai o safon cymdeithasol uwch na'i dras cyffredin. Porthmon a ffermwr llwyddiannus ar dir Dolgynydd. Ni bu'n gigydd.

Byddai'r pum brawd yn teithio i Fôn ar eu ceffylau i brynu gwartheg a'u cerdded yn ôl i'w ffermydd yn Llanrug a Phontrug, yna gwerthu eu cig yn y farchnad yng Nghaernarfon.

Roedd Gruffydd, John, Owen a Hugh yn ffermwyr a chigyddion, ond Robert, y mab ieuengaf, oedd y cigydd mwyaf llwyddiannus. Roedd yn ŵr galluog, a bu'n gyfrifol am gasglu treth y degwm yn y plwyf am flynyddoedd lawer. Cariodd ymlaen fusnes cigydd ym Marchnad Caernarfon am dros drigain mlynedd, a dywedir mai ef fu'n bennaf gyfrifol am sefydlu busnes cigydd o fewn y dref.

Afraid dweud fod nifer helaeth o ddisgynyddion y teulu hwn yn parhau i fyw yn yr ardal. Cysylltwch os oes gennych fwy o hanes y porthmyn a'r cigyddion yng Nghaernarfon.

Teulu Pen Bwlch, Clegir

Yn ystod y llynedd gwnaethpwyd cais am wybodaeth ynglŷn â rhai o deuluoedd Cwm y Glo, yn eu plith, deulu Pen y Bwlch, Clegir. Trwy law

Eifion Roberts, Llanberis, daeth ymateb o Loegr, a llun o'r teulu. Daeth yr ateb gan Dafydd Elmer Jones o Kettering, swydd Northants, un o 'deulu East Lynne' Llanberis, a mab i'r diweddar Robert Thomas Jones (1881–1951), oedd yn fab i John Jones, Pen y Bwlch, teulu a fu'n gysylltiedig â'r cartref am dros ddau gant o flynyddoedd. Mudodd tri o blant John Jones, Pen y Bwlch i'r America.

Cysylltu Dwy Stori

Soniwyd eisoes am Jennie Arfon o Frynrefail yn ennill coron yr Urdd yn ystod y 1930'au a sut y bu iddi fudo i Awstralia yn ddiweddarach. A'r mis diwethaf, soniwyd am gymeriad arall o Frynrefail – Jac Meic – yn cadw Glasgoed Stores, Penisarwaen, a sut y bu iddo yntau a'i wraig, Myfanwy o'r Bryn, hefyd fudo i Awstralia. Bellach, derbyniwyd llun sy'n dangos y ddau deulu gyda'i gilydd. Mae'r llun wedi ei dynnu ar blatfform stesion Caernarfon pan oedd Jennie Arfon a'r teulu yn cychwyn ar y daith am Lundain cyn mudo. Dangosir Jennie Arfon yn derbyn anrheg gan ferch mewn gwisg Gymreig. Pwy oedd hi tybed? Y ferch arall mewn gwisg Gymreig (ail o'r dde) yw Myfanwy o'r Bryn,



Jennie Arfon a'r teulu yn ffarwelio yn stesion Caernarfon.

a'i gŵr, Jac Meic, yn sefyll y tu cefn iddi.

Oes rhywrai o'r darllenwyr all enwi gweddill y bobl yn y llun?

Gyda diolch i Mrs Dilys Jones, Bryn Hyfryd, Cwm y Glo am y llun.

Mwy am Alarch Gwyrfaï

Gan Helen Jones o Gaernarfon y daeth mwy o wybodaeth am gysylltiad Alarch Gwyrfaï â'r Waunfawr. Roedd mewn toriad papur newydd o'i heiddo yn sôn am farwolaeth 'hen chwaer dduwiol' o'r enw Jane Prichard o Bryn Eithin, Waunfawr, yr hon 'a fu farw yng nghartref ei nai, Mr Robert Hughes, Llainwen, Llanberis.' Roedd yn 74 oed, ac wedi byw gyda'i nai, sef Alarch Gwyrfaï, ers rhai blynedd. Roedd yn ferch i'r hen flaenor, Richard Owen. Fe'i claddwyd ym mynwent Betws Garmon. Yn anffodus, does dim dyddiad ar y toriad papur newydd, ond mewn llawysgrifen wrth ei ochr mae'r geiriau 'Margaret Thomas yn marw Rhag 12 1929.' Oes yna gysylltiad rhwng y ddwy ferch?

Yn Hanes Methodistiaid Arfon cyfeiria William Hobley at Richard Owen yng nghyswllt capel y Waunfawr: 'Richard Owen, Bryneithin oedd gynghorwr difyr a gafaelgar. Gwr dawnus. Bu am ddau fis yn y deheudir gyda Moses Jones Dinas, yn dechrau'r moddion iddo.' Yn anffodus, ni roddir dyddiadau iddo yntau chwaith. Dyna fwy o waith chwila mewn cyfrifiadau felly i ddarganfod mwy am linach yr hynod Alarch Gwyrfaï!

Tŷ Haf mewn Ogorf?

Ar y pedwerydd ar ddeg o Ionawr 1914 daeth bugail o Lanberis (yn anffodus, ni roddir ei enw) ar draws un o hen lefelau'r gwaith copr ar lethrau'r Clogwyn Coch ar yr Wyddfa. Aeth i mewn i grymowta, a hanner canllath o geg y lefel daeth o hyd i wely a matras, bwrdd a chadeiriau, llestri te, tebot, sosban a hanner cant o lo. Roedd yno hefyd sebon, rattle plentyn, matsus a dwy lantarn yn hongian o'r nenfwd gyda chanhwyllau ynddynt. Roedd y cyfan yn eithriadol o sych ac mewn cyflwr da iawn.

Adroddwyd am y darganfyddiad hwn yn y papur lleol, ac o fewn wythnos daeth ateb mewn llythyr yn awgrymu mai rhywun neu rywrai oedd wedi bod yn defnyddio'r hen lefel fel llety rhad iawn i aros ynddo dros fisoedd yr haf. Tybed?

Pa mor hawdd oedd hi i gario'r holl ddodrefn i'r fath safle heb i rywun sylwi ar yr hyn oedd yn digwydd? A meddyliwch mewn difrif calon am gario glo i'r lle - ac roedd hi'n amlwg fod cryn dipyn o lo wedi ei losgi eisoes ym mhen draw'r lefel. Ac oherwydd y sustem awyru o un lefel i'r llall, yr awgrym oedd na fyddai mwg taro yn amharu ar bwy bynnag oedd yn lletya yn y fath le!

Oes rhywun o'r darllenwyr wedi clywed stracon tebyg am bobl yn byw neu'n aros yn rhai o'r hen lefelau copr ar lethrau'r Wyddfa?

Diolch i gyfeillion eraill hefyd am anfon gwybodaeth ac atgofion, ond rhaid disgwyl tan y mis nesaf i gael llyc i gynnwys y rheini. Cofiwch anfon unrhyw ymholiad neu bwt o wybodaeth neu lun ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r Eco i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

CYMDEITHAS UNDEBOL. Nos Fawrth, 12 Chwefror, cafwyd noson ddiddorol a hwyliog yng nghwmni Mr Dafydd Ellis, Brynrefail. Cawsom hanes ei fagwraeth yn Nolwyddelan a'r gwahanol swyddi a gafodd pan yn ifanc cyn iddo gael gyrfa lwyddiannus a hapus fel Swyddog Prawf.

Llywyddwyd y noson gan Mr John H. Hughes, a thalwyd y diolchiadau gan y Parchedig John Pritchard.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar nos Fawrth, 11 Mawrth. Bryd hynny byddwn yn ymweld â Chanolfan Uwch Gwyrfaï, Clynnog. Trefniadau i ddilyn

CYMANFA GANU. Cynhelir Cymanfa Ganu yn festri Capel Coch ar Sul y Pasg, 23 Mawrth am 7 yr hwyr yng nghwmni Côr Unedig Eglwys LL55 Llanberis.

Rhaglen y noson wrth y drws a'r elw at adnoddau'r capel. Croeso i bawb ymuno yn y canu.

LLEISIAU LLIWEDD. Wedi tymor prysur y Nadolig, ailddechreuwyd ymarferion y Côr i baratoi ar Noson Gŵyl Dewi sydd i'w chynnal yn festri Capel Coch ar 6 Mawrth. Hefyd byddwn yn diddanna ymwelwyr Gwesty Fictoria, Llanberis, a Gwesty'r Goat, Beddgelert, yn ystod y flwyddyn fel arfer.

Croesewir aelodau newydd. Os oes unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r Côr, cysylltwch â'r arweinydd, Gareth Jones, ar 871882 neu unrhyw aelod o'r Côr. CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS Cynhaliwyd Cinio Blyneddol y Côr yng Ngwesty Dolbadarn ar 15 Chwefror. Yn dilyn y wledd, fe'n difyrrwyd gan y dewiniwr/consumiwr anhygoel o fedrus, Howard Hughes, a Raymond Jones gyda'i Garioci.

DIOLCHIAU. Dymuna Emerson ac Awel Hughes ddiolch i'w ffrindiau, teulu a chymdogion am y cardiau, blodau a dymuniadau da a dderbyniwyd yn dilyn y driniaeth feddygol a gawsant yn ddiweddar. DATHLU GŴYL DDEWI

Cynhelir Swper Gŵyl Ddewi yn Festri Capel Coch am 7 o'r gloch,

Nos Iau y 6ed o Fawrth, ac yn dilyn bydd cyngerdd gan Lleisiau Lliwedd ynghyd ac eitemau unigol gan Tomos Parry (Piano) a Huw Owen (Cornet).

Pris mynediad: £4, yn cynnwys lobsnows/pwddin reis a tharten afal. Os am wledd, ym mhob ystyr, cysylltwch ymlaen llaw â John Huw Hughes (871562).

CAPEL COCH.

Ysgol Sul: Fe ddylem fod wedi sôn yn y rhifyn diwethaf am weithgareddau Nadolig yr Ysgol Sul. Cafwyd oedfa Nadolig nos Sul, Rhagfyr 16 yng nghwmni'r plant. Roedd llond llwyfan ohonynt yn cyflwyno Drama'r Geni unwaith eto, a phob un wedi gwneud eu gwaith yn ardderchog. Roedd y plant lleiaf yn cyflwyno eu drama hwy i ddechrau ac yna cafwyd drama gweddill y plant. Golygai hynny bod gennym eleni ddau Joseff a dwy Fair a dau set o fugeiliaid ac angylion, ond yr oedd popeth yn plethu i'w gilydd yn llyfn iawn, a phawb oedd yno wedi mwynhau yn fawr. Roedd y plant i gyd wedi dysgu eu geiriau, a'r holl beth yn rhesus. Diolch yn fawr iawn i athrawon yr Ysgol Sul am eu cefnogaeth unwaith eto.

Y nos Fawrth dilynol, Rhagfyr 18, cafodd y plant eu parti Nadolig. Roedd yno ddigon o fwyd, a diolch yn fawr iawn i'r rhieni a phawb arall a gyfrannodd fwyd a diod at y parti. Cafwyd gemau wedyn, a digon o hwyl cyn i Siôn Corn gyrraedd. Roedd y plant wrth eu bodd i'w weld, a chafodd pob un ohonynt anrheg ganddo cyn iddo gychwyn ar ei ffordd eto. Mae'n siŵr fod yr Eco yn cyrraedd cartref Siôn Corn, ac felly diolch yn fawr iddo am alw heibio unwaith eto.

Yn lle'r Ysgol Sul ar Chwefror 10 cynhaliwyd gwasanaeth i'r plant a'u rhieni ac yr oedd yn braf gweld cymaint wedi dod yno. Bwriedir gwneud hyn yn batrwm o hyn allan, er mwyn rhoi cyfle i fwy o bobl ddod at ei gilydd i addoli yn gyson. Clwb Ieuencid: Mae Clwb Ieuencid Capel Coch wedi ailddechrau ers dechrau'r flwyddyn ar gyfer disgyblion iau Ysgol Brynrefail. Cafwyd dau gyfarfod hyd yma, a bydd y clwb yn cyfarfod bob mis i ddechrau. Ceir manylion y cyfarfod nesaf yn Gronyn yn nes at yr amser.

Gwynos: Cafwyd Gwynos yn festri Capel Coch i groesawu'r flwyddyn newydd. Dyma'r tro cyntaf ers blyneddoddd lawer i'r fath noson gael ei threfnu yn y pentref. Cychwynwyd am 9.30 o'r gloch nos Galan, ac yr oedd oddeutu 40 ohonom yno i fwynhau gwledd o bryd bwyd. Ac yr ydw i yn golygu GWLEDD hefyd! Roedd yno bob math o ddanteithion - ac wrth y byrddau y buom am oddeutu awr a hanner. Yna cafwyd cyngerdd amrywiol o ganu a chanu piano ac adrodd a sgets. Cafwyd defosiwn byr yn union cyn hanner nos, a chyfle i gyflwyno'r flwyddyn newydd i ofal yr Arglwydd. Wedi dymuno blwyddyn newydd dda i'n gilydd yn nwrws y festri yn sŵn clychau Eglwys Sant Padarn, cafwyd ail hanner y cyngerdd cyn i'r noson ddod i ben am 12.30 o'r gloch. Hyd yn oed wedyn roedd gwaith clirio, ac roedd yn hwylio at 2.00 o'r gloch y bore erbyn i'r olaf gau'r drws a chychwyn adref. Diolch i bawb a fu'n paratoi'r bwyd ac yn ei weini, i bawb a gymerodd ran yn y cyngerdd, ac i bawb a ddaeth i fwynhau'r noson arbennig. Roedd pawb yn canmol y noson am ddyddiau lawer.

APÊL—APÊL—APÊL.

Mae nifer o drefnwyr/dosbarthwyr yr Eco yn Llanberis a Nant Peris wedi penderfynu rhoi eu swyddi i fyny ar ôl i'r rhifyn yma, sef rhifyn Mawrth, gael ei ddsbarthu.

Dymunwn ddiolch i'r isod am ymgymeryd â'r gwaith dros y blyneddoddd, rhai ers 25 mlynedd, yn ddi-gŵyn, yn ddi-dâl ac, yn aml, yn ddi-ddiolch. Dylem gydnabod fod y trefnwyr/dosbarthwyr ym mhob ardal wedi bod yn hanfodol i lwyddiant yr Eco!

Mae angen trefnwyr newydd i gymryd trosodd oddi wrth Gwilym a Bethan Evans, ac Arwyn Roberts, a dosbarthwyr newydd yn lle Moreen Lennon, Derek Roberts, Gareth Jones a Gwenda Roberts (Nant Peris).

Gwaith y trefnwyr yw casglu'r Eco yn fisol o'r man plygu, ei rannu rhwng y dosbarthwyr a derbyn arian gan y dosbarthwyr i'w fancio yn Llanberis. Mae'r dosbarthwyr yn gyfrifol am fynd â'r Eco o dŷ i dŷ, casglu'r arian amdano, unwaith y flwyddyn fel arfer, a throsglwyddo'r arian hwnnw i'w trefnydd.

Os teimlwch y gallech ymgymeryd â'r gwaith, unwaith y mis er budd ein papur lleol, cysylltwch ag Eifion Roberts (870740) cyn gynted â phosib.



Os Gwelwch Chi'n Dda ga i Gremmog?
Plant Ysgol Sul Sant Padarn yn mwynhau cremmogau blasus yn Nhŷ Padarn ar ddydd Mawrth Ynyd, gyda Mr Townsend wrth y llyw.

O SIAMBAR SELWYN

Mi ges i wahoddiad i Stiwdio Deledu Tinopolis, Llanelli, ddechrau'r mis yma ac oherwydd y tywydd ansefydlog a'r darogan eira, mi benderfynais i fynd ar y trê, os oedd hynny'n bosib, gan mai ar y rhaglen *Wedi Tri* yr oeddwn i ymddangos.

Gwneud ymholiadau. Oedd, roedd hi'n bosib bod yno mewn pryd ond i mi gychwyn yn fore. Taci i Fangor felly a dal y trê 7.14, newid yn Crewe ac, hefo tipyn o lwc, fe ddylwn fod yn Llanelli am 1.20 y prynhawn, mewn digon o amser ar gyfer y rhaglen.

Y diwrnod dilynol mi gefais daith yn ôl drwy ran arbennig o Gymru am y tro cyntaf yn fy mywyd. Mae'n wir i mi fod mewn amryw o'r llefydd o'r blaen, ond fûm, i erioed ar drên dros y rhan yma o Gymru, sef o Lanelli i'r Amwythig. Taith drwy'r Llanau oedd hon: Llangennech, Llandybie, Llandeilo, Llangadog, Llamymddyfri, Llawrtyd, ac wrth agosau at Amwythig, sawl gorsaf fechan na chlywais erioed amdanynt.

Roedd nifer o'r llefydd hyn yn dwyn yn ôl atgofion eisteddfodol i mi. Er na fûm i yndd, fe gynhaliwyd y Brifwyl yn Llandybie, o bobman, yn 1944, eisteddfod ar raddfa fechan a gynhaliwyd adeg y rhyfel. Ac yn Llandeilo yn 1996, fe enillwyd y Goron gan un o fro'r *Eco*, sef Y Prifardd Dafydd John Pritchard, a'r hen gyfaill, R. O. Williams, y Bala, yn ennill y Gadair yno, sef tad-yng-nghyfraith Tudur Dylan Jones, a enillodd y Gadair y flwyddyn cynt yn Abergele.

Mae gen i atgofion melys iawn o feirniadu yn Eisteddfod Llangadog, ac aros dros benwythnos y Pasg ar fferm y diweddar Gwynne Jones a'i briod, a chael croeso arbennig. Yn Llangadog yr oeddem yn aros yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Rhydaman hefyd. Dyna'r adeg y bu i fy hen gyfaill, Alun Pierce, gyfarfod â'r Proffesor Phyllips hwnnw i drafod cachu ieir hyd berfeddion y bore.

Un o'r cadeiriau trymaf a

harddaf yn y tŷ acw ydi cadair Eisteddfod Fawreddog Llanymddyfri 1960. Fedrwn i ddim dod â hi adre yn y car, felly fe'i hanfonwyd ar y trê i Orsaf Caernarfon. Erbyn iddi gyrraedd yno roedd un o'i choesau wedi torri, a chofiaf i John Evans saer, Deiniolen, fod mor garedig â'i thrwsio. Do, fe ddaeth y daith ar drên drwy ganolbarth Cymru â sawl atgof eisteddfodol yn ôl i mi.

Ychydig oriau o seibiant ac roedd hi'n bryd i mi gychwyn am Drawsfynydd i Eisteddfod Flynyddol Llawrplwy a Phenstryd. Trawsfynydd ydi'r unig bentre yng Nghymru, hyd y gwn i, sy'n cynnal dwy eisteddfod. Steddffod Steshion y gelwir y llall, ac fe'i cynhelir ym mis Medi.

Er gwaetha'r tywydd, roedd y neuadd yn llawn yn y Traws. Nifer o blant wedi teithio cryn bellter i ddod yno ac fe gafwyd cystadlaethau o safon uchel. Ambell gystadleuaeth yn achosi cryn broblem i fy nghyd-feirniad, Dafydd Lloyd Jones, Bae Colwyn, a minnau. Ond chafodd neb gam. Gobeithio! Doedd yna ddim cymaint o gystadleuwyr yng nghyfarfod yr hwyr, ond cafwyd chwe awr o gystadlu brwd, a hyfryd oedd gweld Côr Meibion Prysor yn cefnogi'r eisteddfod. Fe gyrhaeddais adre'n ddiogel drwy storm enbyd o wynt a glaw tua un o'r gloch y bore.

Y llynedd, mi gefais wahoddiad i ddathlu Gŵyl Ddewi hefo pum cangen o Ferched y Wawr, ac yn naturiol fe roddais i dipyn o bwysau ymlaen. Eleni, yng nghwmni 'Meibion y Machlud' y bydda i, sef Clwb Eryri yn Llanberis. Clwb y bûm innau'n aelod ohono sawl blwyddyn yn ôl bellach, a melys yw'r atgofion am gwmniâeth rhai fel, yn anffodus, y diweddar R. E. Jones, Perisfab, Morris D. Jones, Richard Jones, Prifathro Deiniolen, y Parchedig Isaac Jones, ac eraill. Ydyn maen nhw i gyd wedi mynd. Edrychaf ymlaen at y noson, a hefyd at Eisteddfodau Bontnewydd a Phenrhyndeudraeth cyn diwedd y mis.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir
Dinorwig. Ffôn: 870292

COFEB Y CHWARELWYR. Eto eleni mae'n rhaid talu diolch i aelodau Clwb Orwig sydd, heb gwestiwn, yn edrych ar ôl y Cofeb y Chwarelwyr yn ardderchog. Mae'r cennin Pedr a'r grug sy'n tyfu o'i chwmpas yn fendigedig yn y tywydd braf yma. Maent fel carped melyn ac yn edrych yn wych ac yn dangos bod gan aelodau'r clwb wir ddiddordeb ynddi ac yn gofalu amdani ar ran yr ardal. Derbyniwch ein diolchgarwch am y gofal yma ac yr wyf yn hollol sicr y buasai'r chwarelwyr yn edmygu eich gwaith yn fawr iawn, ac yn dra diolchgar i chi.

CLWB ORWIG. Cyfarfu aelodau'r Clwb yng Nghanolfan Blue Peris am y tro cyntaf eleni ar 7 Chwefror. Mr Dennis Glass fu'n llywio'r gweithgareddau yn absenoldeb y Llywydd. Croesawodd pawb gan ddymuno iddynt Flwyddyn Newydd Dda. Da oedd clywed fod Mrs Ann Lo yn gwella wedi ei llawdriniaeth, a Mrs Joan Glass hithau gartref wedi triniaeth yn Ysbyty Gobowen. Dymunwyd gwellhad buan i Mr Ray Bower hefyd.

Mynegwyd diolch i Mrs M.W. Jones, Deiniolen, am y rhodd o ddarlun o Gofeb y Chwarelwyr a oedd yn eiddo i Mrs Betty Lloyd Roberts, a fu farw yn ddiweddar. Mae colled ar ôl Betty yn y Clwb.

Atgoffwyd pawb o Fforwm Age Concern yng Nghaernarfon ar 29 Chwefror. Yr enwau i law erbyn 23ain o'r mis os gwelwch yn dda.

Diolchodd y Trysorydd, Betty Bower, i bawb a fu o gymorth i godi arian at Elusen Osteoprosis Bangor a'r Cylch. Casglwyd cyfanswm o £450. Diolch i bawb a gynorthwyodd i gyrraedd at y nod.

Diolchwyd i Mrs Betty Roberts a Mrs Kathleen Davies a roddodd y te a'r gwobrau raffl, a enillwyd gan Mrs Alice Griffith, Miss Nellie Wyn Jones a Mrs Betty Roberts.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

SYMUD Tŷ. Wedi'r Nadolig, symudodd teulu Rhyddallt Bach ar hyd y ffordd i Gae Phillyp, ac erbyn hyn mae Dawn a Michael Williams a'r plant wedi setlo i mewn. Perchnogion newydd Rhyddallt Bach yw Nia Hughes (o Fangor), sy'n feddyg yn Ysbyty Gwynedd a Michael Hughes (o Lanllyfni) sy'n ddeintydd ym Mhorthaethwy. Croeso i chi i Gaeathro.

PLENTYN NEWYDD. Croeso mawr i Awel Mair, merch Elfyn (Erw Wen, gynt) a Lisa, eu plentyn cyntaf. Maent yn trigo yn Llanberis ar hyn o bryd.

ADREF O'R YSBYTY. Ar ôl derbyn clun newydd, mae Frances Wyn Williams, Bodwyn, adre ac yn gwella. Hefyd bu raid i Mr Hugh Jones, 22 Glangwna Terrace, dreulio amser yn yr ysbyty.

YN YR YSBYTY. Fodd bynnag, mae Mrs Mary Henderson, Erw Wen, yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gobeitho eich gweld chi adref yn fuan, Anti Mary.

DAMWAIN Y DATHLIADAU.

Cydymdeimlwn â Richard Myrddin Roberts, Bryn y Gof, ar ôl iddo faglu wrth y stepan drws a thorri ei fraich.

TYNFA MISOL. Enillwyr y Tynfa am fis Chwefror oedd: £40: (41) Lora Jones, 18 Tai Glangwna; £25: (43) Gwenda Jones, Plas Glangwna; £15: (10) Dafydd Morris, Frondeg; £5: (44) Chris Roberts, Tafarn Bryngwna.

CAPEL. Bwriedir cynnal yr oedfaon canlynol yn ystod mis Mawrth:

- 2: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Harri Parri;
 - 9: 11.00 Ysgol Sul;
 - 16: 11.00 Ysgol Sul
2.00 Parch Marcus Robinson;
 - 23: Sul y Pasg
10.00 Oedfa'r Pasg;
 - 30: Dim oedfaon.
- Croeso i bawb - oedolion, plant a phobl ifanc.

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.



Golchi a ll'nau Ccir

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd Poeth


Costcutter



01286 871521

Portreadau

DR DAN ROWLAND HUGHES



Mae Dr Dan a minnau yn nabod ein gilydd ers blynyddoedd lawer, gan ein bod yn gyn a chyddisgyblion yn hen Ysgol Brynrefail.

Bryd hynny, cydnabyddid Dan fel rhedwr o fri, yn ennill sawl ras yn y cylch heb sôn am fabolgampau'r ysgol, a chât, fel finnau, gryn bleser o redeg llwybrau'r fro gyda'r nos. Ond, a rhoddodd hyn andros o hunan-foddhad i mi, fe ddangosodd fanylion oedd yn ei eiddo gartref o ras traws gwlad Ysgol Sir Brynrefail yn y flwyddyn 1943: Dan yn ail a rhyw hogyn o Frynrefail yn gyntaf!

Un o dri o blant Myfanwy a Thomas Hughes, Deiniolen gynt, yw Dr Dan – ei dad yn adnabyddus yn y fro fel fferylllydd parod ei gymwynas i'r gymuned yn y blynyddoedd cyn ac wedi'r rhyfel. O gofio iddo felly gael cysylltiad cynnar â'r byd meddygol, dipyn o syndod oedd ei gyfaddefiad nad oedd ganddo fawr o awydd, pan yn iau, i ddilyn galwedigaeth yn ymwneud â meddygaeth. Yn wir, dyhead i ymuno â'r Fyddin aeth â'i fryd pan yn ifanc, neu os yn bosib, dilyn gyrfa athletaidd broffesiynol llawn amser.

Ond darllenodd lyfr enwog A. J. Cronin, *The Citadel*, ac o ganlyniad newidiwyd ei holl obeithion. Bellach doedd ond un yrfa i Dan Rowland Hughes, a honno oedd gyrfa feddygol.

Aeth yn fyfyrwr i Brifysgol Bangor am flwyddyn ac yna i'r Brifysgol yng Nghaerdydd i astudio Meddygaeth. Ar derfyn cwrw o chwe blynedd cychwynnodd ddringo'r ysgol feddygol yn ôl y drefn fel 'Junior Doctor' yn Ysbyty Freninol Gwent Casnewydd, o dan Dr Hywel Roberts, tad nid yr anenwog Dr John Roberts a fu, am gyfnod wedi hynny, yn feddyg yn Ysbyty Gwynedd, ac yn adnabyddus, mae'n siŵr, i lu o ddarllenwyr yr *Eco*.

Wedi hynny bu am gyfnod byr

yn feddyg tros dro mewn practis yng Nghasnewydd a'r meddyg teulu yno yn ŵr i Peggy Land (gynt), disgybl yn Ysgol Sir Brynrefail, fel eraill o'r teulu, ar yr un adeg â Dan a minnau.

Gan iddo gael ei fagu yn Neiniolen ar aelwyd a oedd yn rhoi cryn barch i fynychu capel – Capel Ebenezer yn y cyswllt hwn – fe barhaodd yr arferiad ganddo yng Nghaerdydd drwy fynychu Capel Minny Street. Mewn oedfa yno fe ddenwyd ei lygaid gan eneth o Dalgarneg, Ceredigion, a oedd yn gyfrifydd yn y brifddinas. Yn nhreigladau amser fe ddatblygodd y garwriaeth a, chan mai Capel Minny Street fu'n gyfrifol am i'r ddau gyfarfod, yno hefyd y priodwyd Kathleen Williams a Dan Rowland Hughes ym 1954.

Wedi'r briodas, ymunodd â'r Awyrlu fel meddyg a chafodd ei anfon i Lytham St Annes i ddysgu martsio a dioddef rhegfeydd nas clywodd na chynt nac wedyn, ond yno yn y gwersyll, yn ffodus, yr oedd Caplan o Gymro. Yn wir, Cymro o ddyddiau mebyd yn Ysgol Deiniolen ac Ysgol Brynrefail, sef Hywyn Jones, mab y Canon Walter Jones, Llandinorwig gynt, a oedd ar y pryd yn swyddog llawn amser yn yr Awyrlu.

O Lytham fe'i symudwyd i wersylloedd yn Sir Amwythig ac, yn naturiol, doi awydd i gael ambell benwythnos gartref yn Neiniolen. A fu criod yn hancs yr RAF i unrhyw un deithio adref mewn mwy o steil na'r Flying Officer D. R. Hughes, a hynny mewn awyren yr Awyrlu o sir Amwythig i RAF Valley, trên i Fangor, bws Johnny Hughes o Fangor i Ddeiniolen (rhynnu ar orsaf Crewe am ddau y bore a threnau yn llawn i'r ymylon? Na, ymdriniaeth frenhinol o'r radd flaenaf). Yn ystod ei flwyddyn olaf yn yr RAF roedd Kath, y wraig, wedi ymuno ag ef a'r ddau yn byw mewn carafan ar y

gwersyll.

Wedi ei ryddhau o'r Awyrlu ac yn byw yn Nhalgarreg, bu'n ddyfal yn chwilio am swydd fel meddyg. Yn wir, ysgrifennodd ddeugain llythyr i'r diben hwn. Rhaid sylweddoli fod digon o feddygon ar gael bryd hynny ac o'r herwydd yr oedd yn bur anodd cael swydd yng Nghymru.

Wedi tri mis ym Mhont Yates a blwyddyn yn Sir Benfro, ym 1957 daeth yn feddyg teulu yn ei fro enedigol gan ddechrau cydweithio gyda Dr Vyrnwy Jones yn Llanberis.

Pan ofynnais iddo sut oedd yn teimlo wrth ddod yn ôl i'w henfro cyfaddefodd, fel y tybiwn, ei fod braidd yn ansicr o'r derbyniad a gâi, ond yn fuan iawn fe brofodd ef a Kath groeso twymgalon gyda breichiau agored a buan iawn y diflannodd ei ofnau.

Wrth reswm, o sôn am feddygon yr ardal yn ystod y blynyddoedd hynny, rhaid oedd cyfeirio at y digymar hoffus Dr Marren yng Nghlwt y Bont, a Dr Douglas Jones, a fu hefyd yn gweithio o Fryn Gwyddfan, Llanberis. Roedd oriau gwaith meddyg teulu bryd hynny yn hir a di-gŵyn – o naw y bore hyd ymadawiad y claf olaf. Ymweld wedyn â'r cleifion yn eu cartrefi, yna yn ôl i feddygfa'r hwyr. Yn ychwanegol at hyn, roedd y feddygfa yn agored ar fore Sadwrn a bore Sul, a chofier mai dim ond Dr Vyrnwy a Dr Dan yn unig oedd yn cynnal y practis drwy'r oriau maith hyn.

Symudwyd y feddygfa o Fryn Gwyddfan i adeilad bychan ger cartref Dr Vyrnwy am sbel, cyn symud i'r clinig ar Ffordd Capel Coch, yna y symudiad olaf i'r safle bresennol ym 1991.

Ym 1974 ymddeolodd Dr Vyrnwy, wedi 34 o flynyddoedd o wasanaeth, a Dr Dan ei hun wedi ymddeol ers 1990. Yn sicr, yn ymddeoliad y ddau feddyg a roddodd dros drigain mlynedd o wasanaeth clodwid a chanmoladwy i'r ardal, fe ddaeth i ben gyfnod a fydd am byth yn rhan annatod o hanes cynhaliaeth trigolion plwyfi Llanberis, Llanrug a Llanddeiniolen.

Mae'n siŵr gen i na ŵyr llawer o drigolion y plwyfi hyn fod Dr Dan wedi bod, pan yn iau, yn aelod o dîm pêl-droed Llanrug – doedd 'na ddim tîm yn Neiniolen bryd hynny – ac mae'n dal i gael pleser yn gwylio pêl-droed ar y teledu. Cyn i'w iechyd ddirywio, câi lawer iawn o bleser yn trin yr ardd sylweddol o flaen ei gartref ym Mhantafon. Erbyn heddiw mae'r cyfrifoldeb yn nwylo medrus Kathleen.

Mae'r newidiadau enfawr yn y Gwasanaeth Iechyd bob amser yn denu trafodaeth, ac ni fu fy ymweliad â Phantafon yn eithriad, ond ysgwn i pa droeon trwstan a ddoi i gof Dr Dan?

Cofiai ymweld â chartref dyn oedd, yn ôl yr alwad, yn cael cryn boen yn ei benglin. Galwodd Dr Dan yno ac wedi bodio'r benglin boenus, gofynnodd i'r cyfaill godi coes ei drowsus er mwyn iddo gael cymharu'r ddau benglin. Doedd y claf ddim yn fodlon o gwbl gan ddweud sawl gwaith mai'r benglin dde yn unig oedd yn brifo. Wedi cryn drafferth, cytunodd i godi coes trowsus ei goes chwith a buan y gwelodd y doctor pam yr oedd mor gyndyn iddo ei gweld,

'Doedd o ddim wedi golchi ei goes ers wsnosa – mi o'dd hi'n ddu bitch...'

Ni allai anghofio chwaith y math o gludiant a roddwyd iddo gan griw hofrennydd yr RAF wedi galwad iddo fynd cyn gynted ag oedd modd i bont Penllyn un noson o haf. Dyna'r unig orchymyn a gafodd. Wedi cyrraedd yno roedd dau ddyn yn ei ddisgwyl ac eglurwyd wrtho fod person wedi'i glwyfo'n ddrwg ar greigiau Fachwen. O fewn dim cyrhaeddodd yr hofrennydd gan ollwng rhaff i lawr a gorchymynwyd i'r meddyg ei rhoi am ei ganol. Yn ddigon disymwyth fe'i cludwyd, yn hongian ar y rhaff, tros ddyfroedd Llyn Padarn at greigiau Fachwen. Bu'n rhaid codi'r person i'r hofrennydd ond, yn anffodus, bu farw ar y daith i Ysbyty Gwynedd.

'Coelia fi, doedd hongian ar raff uwch dyfroedd Llyn Padarn ddim yn brofiad pleserus o gwbl...'



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS



**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



**(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)**



O fod yn feddyg yn Llanberis, yn naturiol caed hefyd fyrrdd o alwadau i drin dringwyr oedd wedi mynd i drafferthion ar yr Wyddfa a'r mynyddoedd cyfagos.

Mae'r newidiadau yn y byd meddygol yn enfawr ers dyddiau cynnar Dr Dan Rowland Hughes fel meddyg, ond y newid cymdeithasol mwyaf y sylwodd arno oedd fod cynifer o deuluoedd heddiw yn berchen car, sy'n golygu fod llawer mwy o gleifion yn dod i'r feddygfa yn lle, fel yr arferid gynt, bod y meddyg yn ymweld â'r cartrefi. Newid arall, wrth gwrs, yw'r drefn o gyflogi staff i drafod anghenion y cleifion ymhob meddygfa, gan ryddhau gwragedd y meddygon o fod yn gaeth i'r tŷ i ateb galwadau ffôn.

Pan ofynnais i Dr Dan beth yn ei dyb ef oedd hanfodion bod yn feddyg, dyfynnodd eiriau y diweddar Dr Emyr James Jones ar y radio, flynyddodd yn ôl bellach. I Dr Dan maent yr un mor angenrheidiol heddiw, sef ennyn cariad at y ddynoliaeth, gonestrwydd, a'r gallu i weithio'n galed.

Mae gan Dr Dan a Kathleen dri o blant, sef Shencyn sydd yn athro yn Surrey; Siôn sydd yn ymgynghorydd rheolaeth yn y byd diwydiannol, yntau hefyd yn Surrey, a'r ferch, Mari, sy'n actores ac yn byw yn Bryncir. Wrth reswm, mae taid a nain yn meddwl y byd o'r tair wyres a'r tri ŵyr - yr hynaf yn chwech ar hugain a'r ieuegaf yn saith.

Beth roddodd y pleser mwyaf i Dr Dan yn ystod ei yrfa oedd fy nghwestiwn olaf iddo.

'Heb os, cael fy nghydnabod gan drigolion yr ardal y cefais fy magu ynddi...'

Er na fu ei iechyd yr hyn a ddymunai ers rhai blynyddoedd, mae'n dda ei weld mor sionc ei droed o hyd, a'r elfen arall a gysylltaf â Dr Dan Rowland Hughes ers i ni gyfarfod gyntaf yn hogia efo trowsus bach erstalwm - anaml iawn na cheir gwên ar ei wyneb!

ROL WILLIAMS

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

- * Cig o ffermydd lleol
- * Partiön rhwng 40 a 400!
- * Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
- * Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYNCIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

CLWB BRO BETHEL.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb yn ddiweddar a chroesawyd pawb ynghyd gan y Llywydd, Goronwy Jones. Cyfeiriwyd at farwolaeth un o'n haelodau, sef Owie Jones, ac estynnwyd cydymdeimlad â'i deulu. Rhannwyd nifer o Gylchlythyr rhif 3 o 'Gwymon' a hysbyswyd yr aelodau am y Fforwm sydd i'w gynnal yng ngwesty'r Celt, Caernarfon.

Y wraig wâdd oedd Gwenllian Roberts, Swyddog yng Nghyfadrann yr Amgylchedd a chafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol ganddi ar ailgylchu. Roedd ei brwdfrydedd at ailgylchu yn amlwg i bawb, a soniodd am y pwysigrwydd o ofalu bod cymaint o sbwriel â phosibl yn cael ei ailgylchu wrth ddefnyddio'r bocsglas, a hefyd trwy ddefnyddio'r gwasanaeth sydd i'w gael yng Nghaergylchu ar Stad Cibyn. Pwysleisiodd fod un casgliad y flwyddyn i fyny at bump eitem o'r tŷ ar gael am ddim, a chafwyd gwybod y bydd biniau brown ar gyfer gwastraff gardd yn dod i bob tŷ yn ystod y flwyddyn hon.

Diolchwyd iddi ar ran yr aelodau gan Jenkin Griffiths. Yr Ysgol Gynradd fydd ein man cyfarfod nesaf, a hynny yng nghwmni'r plant.

CAPEL Y CYSEGR. Yn ystod yr oedfa fore Sul yn ddiweddar, gyda nifer o gyfeillion a theulu yn bresennol, bedyddiwyd Ela Gwenllian, merch fach Catrin a Christian Branch, Crawia, Llanrug, gan y gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson.

CYMDEITHAS LENYDDOL.

Gyda nifer dda yn bresennol cafwyd noson lwyddiannus iawn yng nghyfarfod mis Chwefror o'r Gymdeithas. Yn absenoldeb y llywydd, leuan Williams, croesawyd pawb gan Jenkin Griffiths gyda chroeso arbennig i'r gŵr gwadd, sef y Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy. Testun ei sgwrs oedd 'Milgi chwim y Weilgi', a chafwyd ganddo sgwrs hynod o ddiddorol yn olrhain hanes trychineb y *Royal Charter*, gan gyflwyno nifer o bobl oedd ar ei bwrdd ar y noson dyngedfennol honno pan

suddodd y llong ger Moelfre. Cafwyd perfformiad dramatig ganddo yn cyflwyno sgwrs rhyngddo fo a'r enwog Richard Evans, ac roedd sylw pawb wedi ei hoelio o'r funud gyntaf tan y diwedd.

Talwyd y diolchiadau gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson a diolch i'r Academi am noddi'r noson. Y Prifardd Selwyn Griffith fydd yn annerch y tro nesaf.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 12 Chwefror, treuliwyd noson ddiffr yng nghwmni Benjamin Lee yn ei wyllo yn creu addurniadau o siwgr ar gyfer cacennau. Ar ddiwedd y noson cyflwynodd lili hardd fel gwobr raffl ac fe'i henillwyd gan Margaret Williams.

Anfonodd ein llywydd, Margaret Druce, ddymuniadau da at Nora Parry a Megan Jones, gan nad ydynt wedi bod yn dda yn ddiweddar. Da oedd deall fod leuan Jones, Llain yr Ardd, yn gwella yn dilyn llawdriniaeth i'w glun. Cydymdeimlwyd â Joyce, ein hysgrifennydd, sydd wedi colli ei modryb. Llongyfarchwyd Edith ar y newyddion fod ei hwyres, Gwennan Parry, wedi dyweddio ag Owen Thomas o Gaerdydd. Llongyfarchiadau i Brenda ar benblwydd arbennig yn ddiweddar.

Cynhaliwyd stondin gacennau ar gyfer Bopath a diolch i Beti a Glenys am ofalu amdani. Diolch i bawb am eu hymdrech i ddod â chacen, gwnaethpwyd £50 o elw. Diolch i Brenda am y baned a'r raffl a enillwyd gan Rita Dauncey Williams.

Braidd yn hwyr ydi trefniadau swper Gŵyl Ddewi gan i ni fethu â chyfarfod ym mis Ionawr oherwydd problemau trydanol. Siom i ni i gyd oedd na chawsom ymuno gyda Tracy, Anwen a'r grŵp i gael hanes y ddawns Salsa a gweld eu perfformiad. Efallai y daw cyfle eto. Cynhelir y swper i ddathlu ar 12 Mawrth yn yr Ysgol Gynradd a'r gŵr gwadd fydd Gari Wyn, Ceir Cymru.

Mae cwyn ar led ym Methel fod cryn dipyn o sbwriel a baw cŵn o gwmpas yr ardal a phenderfynwyd anfon llythyr i'r Cyngor Cymuned a Chyngor Gwynedd.

Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn y Swper ar 12 Mawrth.

CLWB 200 Y NEUADD. Enillwyr y Clwb am fisoedd y gaeaf oedd:

Hydref: £40: (63) Iorwerth Williams, Cilcain; £20: (141) Nan Owen, Berwyn, Saron; £10: (160) Kathy Bell, Tŷ Newydd.

Tachwedd: £40: (124) Margaret Eckley, Gerddi; £20: (56) Eifion a Bethan Jones, Glasgoed; £10: (83) Collwyn Williams, 4 Tan y Cae.


Rhagfyr: £40: (14) Lyn Lewis, 17 Y Ddôl; £20: (90) Dilys Perez, 11 Tan y Cae; £10: (15) Mair Williams, 15 Y Ddôl.

LLONGYFARCHIADAU i Richard Llwyd Jones, Y Ddôl, ar gipio cadair Eisteddfod Llanegryn yn ddiweddar am gerdd gaeth ar y testun 'Llwybrau'. Mae llyfryn o gynnyrch barddonol Richard, *Cerddi'r Prifio* yn dal ar werth am bris o £2. Bydd yr arian a ddeillia o'r gwerthiant yn cael ei gyfrannu at ymgyrch EFE i ddenu Gweithiwr Ieuencid Cristnogol cyd-enwadol i'r ardal.

DIOLCH IOLA. Cynhaliwyd cyngerdd yn ddiweddar yn yr Ysgol i ddiolch am gyfraniad Iola Jones, Y Ddôl, i ffyniant Cangen ac Aelwyd yr Urdd ym Methel. Cafwyd 10 mlynedd o wasanaeth clodwiw a diflino ganddi. Llawer o ddiolch gan y llu o blant a elwodd o'i chyfraniad.

Am hir lola'n fam i'r aelwyd; - i'r oes rhy brysor fe'i gwelwyd yn rhoi lliw i'r oriau llwyd, o'i harddull ein hiaith urddwyd.

RLJ



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Perchnogion Newydd!

yn parhau'r traddodiad gwyh

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Gigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

ARVONIA

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvoniaco.co.uk
Gwefan: www.arvoniaco.co.uk

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Lle digon gwlyb, ond heb fod yn destun rhy sych, gobeithio!



'Rargian inna, mi suddais hyd fy fferau ynghanol llaid! Cors? Ar lan llyn? Ffos? Ia, ia! mwd ydy mwd, a meddalwch ydy meddalwch! Canfod fy hunan mewn lle gwlyb. Wedi meddwl mynd ati i dynnu llun *iâr ddŵr* / *iâr fach yr hesg*, sy'n aderyn mor drybeilig o sionc a llawer mwy o fynd ynddi nag sydd ynof i!

Rhoi'r camera ar waith? Do! ond nid caethiwo ar ffilm yr *iâr ddŵr* a wnaed! Er yr holl wlybaniaeth a'r gwlychu traed, mi wnes i, yn y diwedd, fodloni ar dynnu llun. Ia! llun yr *hesg*!

Dyma wledd i'r llygaid! Sôn yr ydw i am *hesg melfedog hirion*. Yr enw arall am y planhigyn dan sylw ydy *cynffonnau cathod*. Gelwir nhw hefyd yn *gynffonnau y gath ddail*, neu os ydych chi'n hoff o'r iaith Lladin, *typha angustifolia*; clamp o enw. Ond mae'n llawer gwell gen i yr enwau Cymraeg! Maent yn llawer mwy agos atoch!

Yn ystod y flwyddyn 2007 cefais gyfle i wyluo rhaglenni teledu gŵr ifanc o'r enw Ray Mears, ar ei deithiau hefo Gordon Hillman, y ddau yn trin a thrafod y fath gyfoeth naturiol o fwyd sy'n bodoli yn y gwyllt. Yr hyn a gafwyd mewn un rhaglen o'u heiddynt oedd golwg dra

gwahanol ar yr *hesgen felfedog hir*, sef ei defnyddioldeb fel ffynhonnell fwyd, a hynny, welwch chi, yn Oes Canol y Cerrig (y cyfnod Mesolithig, fel y'i gelwid).

Dyma, yn gryno, rai o'r rhagoriaethau a berthyn i'r hesgen uchod:

- y darnau blewog oddi mewn, sef y pennau gwinau tywyll – fe'u stwffid i leinin dillad, a thrwy hynny cedwid cynhesrwydd mewn gwisgoedd;
- y gwreiddiau, sy'n ymledu o dan y dŵr ac yn croesi i gilydd am bellter oddeutu pedair i saith troedfedd – eu pannu'n bowdwr, ychwanegu dŵr atynt a'u troi'n gawl, sy'n ymdebygu i lud, ac yna gadael iddo sychu'n grimp. Dyma fwyd sy'n llawn starts a charbohydrad, hawdd ei gludo hefo chi. Honnwyd bod helwyr-gasglwyr Oes Canol y Cerrig yn cymryd gwreiddiau'r hesgen mewn ysgrepanau hefo nhw ar deithiau. Hawdd, hefo llewod yn rhuo yn y 'stumoga', ydoedd creu prydau bwyd o'r gwreiddiau!

Ys gwn i a wyddoch chwi am arferion eraill sy'n gysylltiedig hefo'r *hesgen felfedog hir*? Os y gwyddoch, beth am daro gair atom?

UN FUNUD FACH

TAFLENNI

Bob hyn a hyn byddaf yn gwagio pocedi fy nghôt, a fwy na thebyg yn dod o hyd i daflenni'n hysbysebu llefydd i'w gweld a phethau i'w gwneud o gwmpas y fro. Byddaf wedi codi'r taflenni o siop neu gaffi gan fwriadu cael golwg fanwl arnynt, ond ran amlaf bydd y taflenni yn y bocs ailgylchu cyn i mi fod ar gyfyl yr un o'r atyniadau. Mae'r busnesau a'r atyniadau yn gwybod mai felly y mae hi ac yn cynhyrchu miloedd o'r taflenni yn y gobaith y bydd rhai o'r bobl sy'n eu gweld yn cael eu denu i ymweld â hwy. Mae'n debyg fod gan yr atyniadau ryw ffordd o fesur effeithiolrwydd y taflenni hysbysebu hyn, ond mae'n amhosibl iddynt wybod pa sylw a gaiff pob taflen unigol.

Digon tebyg yw hi gyda chyhoeddi'r Efengyl. Yn aml iawn does gennym mo'r syniad lleiaf pa ymateb sydd i'n hefengyl. Wrth genhadu mewn print, pwy ŵyr pa ymateb geir i'r erthygl a'r daflen a'r llyfr am yr Arglwydd Iesu Grist? Does gen i, er enghraifft, ddim syniad pwy sy'n darllen y golofn hon bob mis na beth yw'r ymateb i'r Efengyl a gyhoeddir drwyddi. Mae'r un peth yn wir am genhadu ar lafar. Bydd pregethwyr yn cyhoeddi'r Efengyl heb wybod pwy sydd wedi gwrando nac ymateb. A hyd yn oed wrth rannu'r newyddion da mewn sgwrs, fyddwn ni ddim bob amser yn gweld ymateb pobl.

Ond dyna'n aml yw cenhadu: cyhoeddi'r neges a chyflwyno'r cyfan i'r Duw Mawr, gan ymddiried y bydd ef yn ei ddefnyddio i ddwyn pobl at yr Arglwydd Iesu. Mae'n ddigon posibl mai i'r domen sbwriel neu'r bin ailgylchu yr aiff y neges wrth i lawer glywed heb gymryd math o sylw o'r Efengyl. Ond pwy ŵyr na fydd rhywun yn ei chlywed ac yn ei chredu? Ac fel y mae rhai'n ymweld â'r atyniadau ar ôl gweld y taflenni hysbysebu, pwy ŵyr na fydd rhywrai'n clywed neu ddarllen gair am Iesu ac yn cael eu denu ato? Mae'n bosibl mai ymhen blynnyddoedd y bydd pobl yn cofio'r pethau a ddywedwyd wrthynt am yr Iesu ac yn dod i'w gofleidio'n Arglwydd a Gwaredwr.

Wrth reswm, byddai pawb sy'n cenhadu mewn unrhyw ffordd yn dymuno gweld pobl yn ymateb ar union i'r Efengyl. A diolch am hynny, mae hynny'n digwydd weithiau, a braint fawr i unrhyw Gristion yw gweld Duw yn defnyddio'i eiriau er mwyn arwain eraill at yr Iesu. Dyna ran o gyffro'n cenhadaeth. Ond rhan o'r cyffro hefyd yw nad oes gennym syniad beth all Duw ei wneud o'n geiriau a'n tystiolaeth yn y dirgel, heb ein bod ni o reidrwydd yn dod i wybod dim amdano. Weithiau, mae'n rhaid bodloni ar adael taflenni o gwmpas y lle.

JOHN PRITCHARD

- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul



*Royal Victoria
Quality Hotel
Llanberis*

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis (01286) 870253

**Gwesty
Dolbadarn**

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

AROS PRYD

hefo'r 'un garw am ei fol'



Caffi Pen y Pas

Ar dywydd braf, neu hyd yn oed pan fo hi'n bwrw fel o grwc (yn hollol felly!), y mae'n daith hynod hyfryd. Cychwyn o bentra Llanbêr yn ista ar un o seddau cyfforddus bws fechan foethus Sherpa'r Wyddfa a chlywed y teithwyr yn dotio a rhyfeddu at arwedd cerrig hen Fwlch Llanberis, ac yn mynegi hynny mewn gwahanol ieithoedd. Ydy, mae'n werth gwisgo'n gymen a rhoi 'sgidiau cryfion am eich traed.

Wedi cyrraedd Pen y Pas, mynd ati, yn y lleoedd addasddiogel, i gerdded, oedi, synnu a mwynhau yr olygfa, cyn dychwelyd i'r caffi.

Awydd llenwi'r bol? Dyma paham rydan ni yma, ar ran *Eco'r Wyddfa* ac 'Aros Pryd'. Panad o de amdani a honno, welwch chi, mewn cwpan blastig eitha mawr, a chael tost wedi'i grasu'n bur dda hefo haenan denau o fenyn arno. Dyna'n wir a gefais y bore hwnnw, a'r cyfan am ddwy bunt a naw deg ceiniog. Ychydig yn ddrud, dwedwch? Efallai'n wir. Ond mi gewch hefyd ista wrth fyrddau a meinciau mewn 'stafell a'i muriau'n orlawn o ffeithiau moelion, a'r cyfan yn fwy o arddangosfa na dim byd arall.

Yma'n bendifaddau mi ddowch o hyd, yn lled fuan, i'r Grib Goch a chribau eraill mynyddoedd Eryri. Ar un o'r

muriau ceir ffotograffau sy'n cynnwys dringwyr a fu yn y rhan enwog hwn o Gymru, yn eu plith George Mallory, a oedd yn cadw cwmni i Andrew Comyn Irvine yn y flwyddyn 1924, a'r ddau yn marw tra'n dringo mynydd uchaf y byd, Everest.

Peidiwch da chwi â meddwl mai byr-brydau yn unig a ddarperir yn y caffi. Y mae yma ddewis da o wahanol fwydydd, a rhywbeth at ddant pob un ohonoch. Gofynnwch i'r genod sy'n gweithio yng nghaffi Pen y Pas am y daflen fwyd, ac mi allwch hefyd, os dymunwch, archebu mymryn o gwrw, neu hyd yn oed wydryn o win hefo'ch bwyd, gan fod yma far-yfed bychan.

Os daw awydd arnoch daro draw i Gaffi Pen y Pas, peidiwch â phoeni'n ormodol am y glaw, a bod yr haul ar ddyfod.

Ond, fy mhobol i, a'r rhai ohonoch sy'n arw am eich boliau, mi fydd yn rhaid i chwi aros hyd nes y daw'r Pasg! Yr adeg honno o'r flwyddyn yr agorir y caffi i'r cyhoedd, a'r oriau agor a chau yw o 9.00 y bore hyd 17.15 (chwatar wedi pump o'r gloch yr hwyr). Hwyrach, bryd hynny, boed hi'n heulwen neu beidio, y gwnewch chi, fel y gwnes i, daro ar Ann, Susan, a Betty, sy'n gweithio yn y caffi, a mwynhau tamaid o fwyd yn eu cwmni!

Cyngor Cymuned Llanberis

Cofnodion cyfarfod nos Iau yr 17eg o Ionawr, 2007.

Presennol ac Ymddiheuriadau Ward Padarn: Gavin Allsup, Elwyn Davies (Cadeirydd), Emlyn Baylis, Barry Davies, Olwen Gwilym, Bethan Holding, Derek Jones, Douglas Pritchard, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, **Ymddiheuriadau:** Fred Owen (gwella wedi llawdriniaeth), Gwenda Roberts.

Cywiriad

• **Maes Parcio Glan y Llyn:** Atgoffwyd aelodau y gallai prynu tocyn tymor ar gyfer parcio mewn maes parcio dan nawdd Cyngor Gwynedd (CG) olygu hawl i barcio am ddim mewn meysydd eraill hefyd o fewn y sir.

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau y 13eg o Ragfyr, 2007. Cynnig ac eilio: DP / IO.

Materion yn codi o'r Cofnodion

• **Tir Pont Fictoria.** Cafwyd adroddiad gan y Clerc ei fod wedi trosglwyddo'r gŵyn am yr hyn a gredid oedd yn arwyddion anawdurdodedig ar y safle i Gyngor Gwynedd (CG).

• **Cae Pêl-droed UEFA:** Cafwyd adroddiad gan y Clerc a'r Cadeirydd o gyfarfod yng Ngwesty Fictoria. Yn raddol mae pethau'n symud ymlaen i sicrhau'r cae pob tywydd yma, a'i leoli tu ôl i'r Ganolfan ar Ddôl y Goeden. Roedd y rhagolygon yn dda am grantiau tuag at y gost o tua £30,000 i osod y cae yn ei le. Roedd y cae ei hun a'r ffens yn rhodd oddi wrth UEFA. Byddai CG yn trefnu a thalu am y cais cynllunio a chael amcangyfrifon ariannol ar gyfer y gwaith ynghyd â gwasanaeth tir fesurydd. Am na fyddai Cyngor Cymuned Llanberis (CC) yn medru denu arian o rai cronfeydd arbennig y gobaith oedd cael Pwyllgor y Ganolfan i wneud y cais am gymorth ariannol, ond gyda'r CC yn cyfrannu'n ariannol hefyd. Bydd y Swyddog Adfywio Bro yn cynorthwyo gyda gwaith paratoi'r cais am grantiau. Nodwyd y bydd hwn yn gae i'w ddefnyddio gan fechgyn a merched, ac y gellid chwarae pêl-rwyd a phêl-foli arno yn ogystal.

• **Angorfa:** Eglurodd y Clerc iddo drafod dyfodol 'Angorfa' gyda Syrffwr y Sir a bod y dydd olaf o Fawrth wedi ei grybwyll fel dyddiad posib i'r Cyngor ildio meddiant. Roedd yn ymddangos yn bur annhebyg y byddai treuliau trwm ar y Cyngor wrth adael yr adeilad a'i gyflwyno'n ôl i CG. Cytunwyd yn unfrydol ar ddiwedd y

flwyddyn ariannol fel dyddiad ymadael. Cyn hynny trefnir i restru'r creiriau yn yr Amgueddfa, cyn eu symud i Ysbyty'r Chwarel.

• **Graffiti:** Adroddwyd fod y gwaith paentio a wnaed ar gysgodfan bws Nantperis wedi ei ddifetha gan graffiti, ond ar ôl i'r heddwlas lleol gael gair â'r sawl oedd dan amheuaeth o fod yn gyfrifol, aeth y troseddwr ati i baentio'r adeilad o'r newydd, gan ddileu ei gelfyddyd wreiddiol!

• **Giât ar y ffordd osgoi:** Dywedodd y Clerc ei fod yn obeithiol y gwelir giât newydd barhaol ar y safle yn fuan, i atal trafndiaeth rhag mynd o'r ffordd sy'n arwain o'r Stryd Fawr heibio'r Siop Goed i'r Ffordd Osgoi.

• **Mynwent:** Mae wedi bod yn llawer rhy wlyb i symud pridd a cherrieg.

Praesept

Yn sgil y penderfyniad i gefnogi yn ariannol Cae UEFA a gwneud mwy o waith twtio yn y pentref, gan gadw mewn cof hefyd y bydd etholiad yn y flwyddyn ariannol nesaf, penderfynwyd cynyddu y Praesebiad o £11,000 i £14,000. Bydd grant CG o £3,000 yn ychwanegol at hynny. Eglurwyd y byddai hynny yn codi'r dreth ar gartrefi Band D o tua £15.50 i oddeutu £19.20. Byddai'n uwch yn naturiol ar gyfer cartrefi â threthi uwch.

Cynnig ac eilio: EB / TT.

Cynllunio

Cyngor Gwynedd:

• **C08A/0008/15/LL:** Estyniad un llawr ar gefn yr eiddo - 2 Pyllau Dŵr, Llanberis. Dim gwrthwynebiad

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE):

• **NP3/15/166A** - Gosod 1 x dysgl diamedr o 300mm ac 1 x dysgl diamedr o 600mm ar y polyn presennol, 1 caban offer o fewn yr adeilad presennol, storfa poteli nwy LPG, to newydd ar yr is-orsaf a phibellau a chwteri allanol - Is-orsaf Hafod Lydan, Llanberis. Dim gwrthwynebiad

• **NP3/15/182A** - Gosod tanc olew, decio pren a thirlunio sy'n gysylltiedig â'r anecs presennol - Ty'n Ffynnon, Nantperis. Dim gwrthwynebiad

Wedi eu caniatáu/gwrthod

APCE: Caniatáu

NP3/15/184 - Gosod paneli haul ar edrychiad deheuol y to, gosod fflw allanol ar yr edrychiad gorllewinol a chodi twrbîn gwynt - Helfa Fawr, Llanberis.

Gohebiaeth

• **Fforwm Padarn:** Gwahoddiad i cnwebu aelod i gynrychioli'r Cyngor ar y Fforwm. Gan fod peth ansicrwydd ynglŷn â'r

D YSGOL YRRU L AL-DRIVE L LLANBERIS A'R ARDAL

- GWERSI FESUL AWR
- CYRSIAU GLOYWI
- GOSTYNGIAD PAN YN BWCIO MEWN BLOC
- HYFFORDDIANT TRAFFORDD
- "PASS PLUS" - YSWIRIANT RHATACH!!
- GWERSI DWYIEITHOG

ALED JONES A.D.I

FFÔN:- (01286) 872144 / 07917888631 / www.aldrive.net

Fforwm, penderfynwyd holi am fwy o fanylion cyn gwneud yr enwebiad.

- Etholiadau Cyngor Cymuned 2008: Nodyn oddi wrth CG yn nodi mai'r laf o Fai a glustnodwyd ar gyfer Etholiad CC a CG (os y bydd un). Nodir hefyd y gallai'r gost fod cymaint â £1500 i'r Cyngor yma.

- Ein Gwastraff, Ein Her: Ymgynghori ar Gynllun Gwastraff Rhanbarthol

- APCE – Llundio Dyfodol Eryri: Llythyr ynglŷn â dyddiadau cyfarfodydd ymgynghorol ynglŷn â Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, Cynllun Datblygu Lleol Eryri, y Ddogfen ar y 'Strategaeth a Ffafrir'.

Unrhyw Fater Arall

- Sbwriel Anghyfreithlon: Adroddwyd fod 'asbestos' wedi ei adael ger cilfan gynta Tro Pen Twnel. Mae'r gwastraff ar dir CG a bydd yn cael ei symud cyn gynted a bydd modd ar ôl penderfynu sut i wneud hynny. Nodwyd hefyd fod gwastraff a sbwriel yn cael ei adael yn gyson ar Ffordd Clegir. (Diolchwyd i BD am drefnu, ar fwy nag un achlysur, i weithwyr CG glirio'r sbwriel yma.)

- Mainc: Cafwyd ar ddeall fod un o feinciau'r Cyngor wedi diflannu ger Gwesty Fictoria, a bod un arall wedi torri ger Coed Doctor.

- Tyllau yn y ffyrdd: cafwyd cwyn fod nifer o strydoedd Llanberis â thyllau ynddynt.

- Cwteri: Adroddwyd hefyd fod nifer o gwteri wedi cau. Cafwyd llyfogydd ger Y Wern a gaeodd y ffordd am gyfnod, a bylchwyd y wal i symud y dŵr oddi ar y ffordd.

- Penderfynwyd gwneud rota o gynghorwyr i gerdded y pentref i gadw golwg ac adrodd am ddiffygion. Gwirfoddolodd TT a BH i fynd gyntaf.

- Mae angen sicrhau man cyfarfod ar gyfer cyfarfod mis Ebrill, trefnwyd nifer o ymholiadau ac i'r aelodau adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

* * *

Cofnodion cyfarfod nos Iau yr 21ain o Chwefror, 2007.

Presennol ac Ymddiheuriadau
Ward Padarn: Elwyn Davies (Cadeirydd), Emlyn Baylis, Barry Davies, Bethan Holding, Derek Jones, Fred Owen, Douglas Pritchard, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts.

Ymddiheuriadau: Olwen Gwilym, Helen Sharp.

Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau yr 17eg o Ionawr, 2007. Cynnig ac eilio: DJ / DP

Materion yn Codi o'r

Cofnodion

- Cac Pêl-droed UEFA: Cafwyd

adroddiad gan y Clerc fod safle wedi ei glustnodi tu cefn i'r Ganolfan ar Ddôl y Goeden, fod y cais cynllunio'n cael ei baratoi a bod gwahoddiadau i gynnig pris am wneud y gwaith wedi eu hanfon allan. Bellach mae gan Y Ganolfan ysgrifennydd newydd ac roedd y Clerc yn deall fod y gwaith o baratoi ceisiadau grant ar y gweill gyda'r Swyddog Adfywio Bro o Gyngor Gwynedd (CG). Serch fod y Clerc yn bryderus fod peth oedi wedi bod yn ddiweddar, roedd o'r farn fod pethau'n symud yn eu blaenau bellach.

- Angorfa: Eglurodd y Clerc iddo gyfarfod nifer o swyddogion CG i edrych ar yr adeilad a chytuno i'w wagio o eiddo'r Cyngor Cymuned erbyn diwedd Mawrth. Bydd angen gwneud hynny yn yr wythnosau nesaf. Yn Ysbyty'r Chwael y bydd creiriau Amgueddfa T. Rowland Hughes yn cael cartref newydd, o dan nawdd CG. Hyd y gwyddai'r Clerc nid oedd y creiriau a'r lluniau ar fenthyg, ond yn hytrach wedi eu cyflwyno yn barhaol i'r Amgueddfa. O fis Ebrill bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yng Ngwesty Fictoria. Cynnig ac eilio FO / DJ.

- Adroddwyd fod cryn sbwriel wedi ei adael ar fwy nag un achlysur ar Ffordd Clegir. Roedd llawer ohono yn wastraff adeiladu, ond yn ogystal gadawyd yno 'nwyddau gwynion' a dodrefn. Trueni fod rhywun neu rhywrai mor ddi-hid o'u hamgylchedd ac yn rhy ddiog i fynd â'r sbwriel i'r 'domen byd' swyddogol agosaf neu i'w ailgylchu. Diolchwyd i BD am drefnu gyda swyddogion eraill CG i glirio'r sbwriel yn ddiymdroi.

- Eglurodd BD fod yr asbestos a adawyd yn y gilfan ger Tro Pen Twnel wedi ei glirio'n ddiogel.

- Cae Chwarae Min y Llyn: Yn dilyn damwain gyda phlentyn ifanc yn ddiweddar, bu cyfarfod rhwng y Clerc ac un o swyddogion CG ynghyd â Ray Parry, adeiladydd y safle, i drafod diogelwch.

Penderfynwyd nad oedd dim o'i le ar y safle ond fod angen mwy o arwyddion yn rhybuddio mai ar gyfer plant rhwng 3 a 12 oed yr oedd y maes wedi ei ddarparu.

Cynllunio

Cyngor Gwynedd:

- C08A/0029/15/LL – Estyniad deulawr ar flaen yr eiddo – 1 Parc Lanc, Llanberis. Dim gwrthwynebiad.

Wedi eu caniatáu/gwrthod

CG: Caniatáu

- C07A/0713/15/LL – Codi modurdy ar ochr yr eiddo, gosod sied ardd – Tan y Rhacadr, Blaen y Ddôl, Llanberis.

- C07A/0830/15/LL – Gwaith Rheoli Coedlan Gymunedol – Coed Doctor, Llanberis.

- C07A/0859/15/LL – Codi adeilad newydd sy'n cynnwys toiledau, cawodydd a chyfleusterau cysylltiedig â safle gweryslla – Llwyn Celyn Bach, Llanberis.

- C08A/0008/15/LL – Estyniad un llawr ar gefn yr eiddo – 2 Pyllau Dŵr, Llanberis.

Gohebiaeth

- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE): llythyr yn nodi fod y Gorchymyn Gwarchod Coed Dros Dro wedi ei gadarnhau ar gyfer Glyn Peris, Nantperis.

- Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC): Ffurflenni ar gyfer gwneud cais i gael caniatad i fenthyca arian i'r Cyngor. Rhaid gwneud y cais am ganiatad i fenthyca cyn diwedd Mawrth. Cytunwyd i wneud hynny, rhag ofn y bydd angen benthyciad ar gyfer Cae UEFA.

- Arolwg gan CG o bobl sy'n cysgu allan: Adroddwyd mai un yn unig oedd mewn sefyllfa felly yn yr ardal.

- Arolwg gan gwmni Evidence Base o Gaerfaddon ar ran 'Cadw' i holi ynglŷn â theimladau'r trigolion tuag at Gastell Dolbadarn. Nodwyd fod yno sbwriel, a bod angen ei glirio'n amlach. Mynegwyd y dylid symud y Caban a ddefnyddid gynt i gysgodi'r gwerthwr tocynnau, am nad oes tâl mynediad. Byddai bwrdd gwybodaeth newydd yn dderbyniol i gyflwyno gwybodaeth i ymwelwyr am hanes a chefnidir pwysig y Castell.

- LICC: Derbyn copi o Còd

Ymddygiad Cynghorwyr.

- *Un Llais Cymru:* Gwahoddiad i adnewyddu aelodaeth yn ôl 22.9c yr anedd. Cyfanswm yn seiliedig ar 965 o anheddau, £220. Cytuno.

- APCE: *Llundio'r Dyfodol*, dogfen drafod y Parc Cenedlaethol – y Clerc i edrych arni.

- LICC: Arolwg Rhanddeiliaid gan swyddogion y Cynulliad ar ran yr Ysgrifennydd Parhaol, wedi ei chwblhau.

- CG: Dogfen Ymgynghorol *Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd*. Mae'r adroddiad ar Wefan CG a holwyd am ymateb erbyn y cyfarfod nesaf. Y dydd olaf o Fawrth yw'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau.

Unrhyw Fater Arall

- Glyn Peris, Nantperis: Adroddwyd fod cwrtill yr adeilad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sbwriel adeiladu a bod golwg flêr ar yr adeilad. Penderfynwyd anfon gair at CG.

- Maes Parcio: Adroddwyd nad oedd giatiau'r Maes Parcio ger glannau'r llyn wedi eu cloi ar ôl iddi dywyllu, eglurwyd y byddai hynny yn newid pe bai fandaliaeth a chamymddwyn yn digwydd yno.

- Llwybr: Adroddwyd fod y llwybr sy'n arwain o Faes Parcio Min y Llyn heibio'r Cae Chwarae, â thyllau ynddo. Addawodd BD y byddai staff Parc Padarn yn edrych i weld oedd modd ei drwsio.

Cyfarfod Nesaf

Nos Iau, 20fed o Fawrth, 2008 am 7 yr hwyr yn 'Angorfa'.

01286 672333

GWYLIAU SEREN ARIAN

Silver Star

HOLIDAYS

Dathliad Penblwydd

Seren Arian yn 90 oed

Mai 2008 24 - 26 (3 Diwrnod)
Mai 2008 25 - 26 (2 Ddiwrnod)

1 neu 2 noson gwely a brecwast gyda swper gala ac adloniant

4* Hilton Metropole, Birmingham

Ceir adloniant gan Tudur Owen y comedïwr, Dafydd Iwan a'i fand, ac band teyrnged 'Abba'

2 Ddiwrnod £99
3 Diwrnod £149

www.silverstarholidays.com

Atgofion Hen 'Sgotwr

Fe ddechreuais bysgota yn Afon Goch dros hanner can mlynedd yn ôl erbyn hyn. Ia, yn 1954 yn rhyw hanner pluen, ond yn amlach na chyda phry genwair.

Yn y blynyddoedd cynnar roeddwn yn dechrau ym Mhont Sarnau ac yn gwneud fy ffordd i lawr yr afon, heibio'r Allt Goch a chefn Murddyn Coch, Ceunant, ac ymlaen nes cyrraedd Ffordd Min Nant.

Byddwn yn dod adref yn aml iawn gyda dau neu dri o bysgod gweddol nobl. Yr amser hwnnw yr oedd Afon Hwch ac Afon Weun dan berchnogaeth y Faenol a dim ond chwech oedd yn cael caniatâd yn y chwarel i bysgota yn y ddwy afon, a hynny dim ond hefo pluen.

Ond buan iawn y daeth rhyddid i minnau fynd yno. Cefais fy nysgu gan Mr Charles Parry, Ceunant Street, sef tad Nyrs Parry.

Roedd Llyn Cwmdauthwch yn hollol breifat a Robert Williams, neu fel yr oedd yn fwy adnabyddus, Robin Tŷ Mawr, oedd y cipar. Mae'n braf weithiau cael cipar yn ewythr!

Byddai'r Faenol yn rhoi caniatâd i bysgota eu dyfroedd ond roedd ganddynt reolau llym iawn a gwae i neb eu torri.

Fe glywais fwy nag un yn adrodd na chafodd unrhyw un o Llanbêr erioed eu dwyn i gyfraith gan yr un o'r ddau gipar a fu'n gwarchod Llyn Cwmdauthwch am dros hanner can mlynedd. Y cipar cyntaf oedd Hugh Thomas Williams, sef brawd Twm Bach y Banjar.

Yr arferiad oedd i roi cais am bapur pysgota i Swyddfa'r Chwarel, ond hyd yn oed os oeddech yn llwyddiannus, nid oedd y papur yn rhoi'r hawl i chwi fynd i ble y mynnech nac ychwaith

pa bryd y mynnech. Dyma rai enghreifftiau:

- Yn 1987, fe roddwyd caniatâd i saith o chwarelwyr bysgota o'r ceunant i fyny Afon Hwch

- Yn 1899, fe roddwyd caniatâd i ddeg o chwarelwyr bysgota ar ochr y llyn.

- Erbyn 1899, roedd deg o ddynion i gael pysgota o'r ceunant i fyny un waith yr wythnos yn unig.

- Yn 1900, fe ganiatawyd i dri ar ddeg o ddynion gael pysgota Afon Hwch ond roedd yn rhaid i Mr D.W. Thomas, ysgolfeistr Llanberis, fod yn un o'r tri ar ddeg. Hefyd roedd pedwar i gael pysgota ar ochr y llyn.

- Erbyn hyn roedd tri ar ddeg wedi cael yr hawl ond dim ond un ar y tro ar wahanol ddyddiau i bysgota yn Llyn Cwmdauthwch.

Roedd Llyn Peris yn dod o dan ofal y Fictoria Hotel amser hynny, felly doedd dim hawl gan neb i fynd yno.

Rhaid cyfaddef mai plu digon hawdd i'w cawio oedd plu'r chwarelwyr cynnar yn y dyfroedd hyn. Dyma enwi rai ohonynt:

Ceiliog Hwysaden a Chorff Gwin Brech yr Iâr

Starling Corff Du

Petrisan Corff Paen

Petrisan Corff Twrch

Ceiliog Hwysaden Corff Piws

Petrisan Corff Blewyn Ysgyfarnog

Ceiliog Hwysaden a Corff Melyn Budr

Cyfflogyn Corff Gwyrdd

Mae rhai o'r rhain yn yr hen dun plu hyd heddiw, ond roeddent yn bachu pysgod. Fe ysgrifennaf fwy y mis nesaf, sef fy hanes yn dechrau pysgota ar Lyn Padarn a Cwmdeuthwch.

R. ELWYN GRIFFITH

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr

Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.

(Llun-Sadwrn)

6 a.m.-3 p.m. (Sul)

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501

Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
IMPORTS	GERMAN	SWEDISH	
Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...			
Ceir Benthg AM DDIM			
Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD (01286) 673559 www.a-v-w.co.uk			
AVW Car Service			
VOLVO	MERCEDES	SAAB	



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

CYMDEITHAS Y GRONYN GWENITH
yn cyflwyno

UN NOS OLAU LEUAD

CARADOG PRICHARD

Detholiad ar gyfer llwyfan

gan

Harri Parri

yn

THEATR SEILO, CAERNARFON

Mawrth 11-15, 2008

am 7.30 o'r gloch

Prisiau tocynnau:

Oedolion £5.00

Pensiynwyr a Phlant £4.00

Partion (dros 10 mewn nifer) £4.00

Am docynnau cysyllter â'r Trefnydd Perfformiadau:

David Elwyn Williams

Rhif ffôn: **(01286) 677016**

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 5ed o Chwefror. Croesawodd y Cadeirydd Catherine Roberts a Geraint Jones o Adran Ymddwyn Gwrthgymdeithasol Gwynedd. Cafwyd amlinelliad gan y ddau o beth yw eu swyddogaeth a'r cysylltiad rhyngddynt ag Asiantaethau eraill ac â'r Heddlu.

Y prif bwyntiau oedd camddefnydd o sylweddau a phroblemau yn y cartref. Cyfeiriodd Len Jones at amryw alwadau ffôn i'r Heddlu ynglŷn â gor-yfed ond dim dilyniant. Atebodd Catherine bod gan yr Heddlu bwerau i ymateb i yfed dan oed ac i ddisgyblu pwy bynnag sy'n gwerthu alcohol i ieuencid.

Cyfeiriwyd hefyd at fater o amharu ar heddwch trigolion. Mae un achos yn bod ers blwyddyn a hanner ond does dim wedi ei wneud. Awgrymodd Catherine mai mater i Adran Iechyd yr Amgylchedd yw hyn, ac ychwanegodd Geraint y gallai Adran Tai'r Cyngor gydweithio gyda'r Heddlu ar hyn os mai deilydd tŷ Cyngor yw'r troseddwr. Cyfeiriwyd at brinder Heddwesion. Er bod Rheolwyr Rhawd wedi eu penodi i weithio yn yr ardal, ar un cyfnod dim ond un car oedd ar gael o orsaf Llanberis. Dywedodd Elspeth Mitcheson bod cymaint o asiantaethau yn bodoli fel ei bod yn anodd gwybod pwy sy'n gyfrifol am beth. Atebodd Catherine ei bod yn bosibl galw'r holl asiantaethau at ei gilydd pan fo problem mewn rhyw leoliad arbennig. Bu rhai achosion lle cyfarfu'r Heddlu, Adran Tai ac Adran Iechyd yr Amgylchedd i geisio datrys problem.

Cyfeiriwyd at faw ci yn achosi ffræ rhwng cymdogion.

Dywedwyd bod ieuencid o bob man yn tyrru i Benisa'rwaun ar noson Clwb Ieuencid - nid yw'r Clwb yn gyfrifol am ddigwyddiadau y tu allan i'r man cyfarfod. Dywedwyd bod hyn yn gyffredinol i'r pentrefi eraill hefyd. Cyfeiriodd Richard Ll. Jones hefyd at yr amrywiol Asiantaethau a bod tuedd i basio'r *buck* - mae gwybodaeth ddiddiwedd yn cael ei hel ond dim gweithredu.

Dywedodd Catherine ei bod yn bwysig rhoi gwybod i'w hadran am bob camymddwyn, fel y gellid crynhoi'r wybodaeth er mwyn datrys problemau penodol. Dywedodd y Cadeirydd mai gor-yfed yw'r problem fwyaf, ac atebodd Catherine bod rheolau newydd gan yr Adran Drwyddedu ers

blwyddyn.

Dywedodd Len Jones nad yw'r Heddlu byth i'w gweld yn y pentrefi, mae pedwar camera yn Neiniolen ond does neb yn eu monitro. Atebodd Catherine mai dim ond y Cyngor Sir sydd â'r hawl i fonitro camerau mewn mannau cyhoeddus.

Pwysleisiodd ddau bwynt:

1. Ei hadran i gael gwybodaeth gyson gan y Cyngor/cyhoedd.
2. Gwybodaeth am broblemau penodol a thystiolaeth.

Dywedodd Geraint bod yr Heddlu i fod i drefnu cyfarfodydd plismona, panel lleol, bob chwarter. Dylai'r Cyngor gael gwybod pwy yw'r panel lleol a phryd a lle y cynhelir y cyfarfodydd yma. Y teimlad cyffredinol oedd nad oes digon o Heddwesion a bod gormod o Asiantaethau.

Diolchodd y Cadeirydd i Catherine a Geraint am eu presenoldeb ac am eu harweiniad.

Gweddi. Offrymwyd y weddi ar ran y Cyngor gan Richard Llwyd Jones.

Cofnodion Ionawr

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Cynllun EFE (Efengyl i Fro'r Eco). Derbyniwyd atebion y mudiad i'r cwestiynau a godwyd yng nghyfarfod Tachwedd, a thrafodwyd cynnwys yr ateb. Penderfynwyd cefnogi'r mudiad yn ariannol ond gydag amod bod y cynllun yn cynnwys Rhiwlas.

Teithwyr Fachell. Darllenwyd ateb Dilys A. Phillips, Cyngor Gwynedd, na ellid datgelu cyngor y Bargyfreithiwr. Ychwanegodd Huw P. Hughes mai dim ond un sydd yno yn barhaus bellach a bod y gwaith clirio wedi ei ddechrau.

Toiled Deiniolen. Derbyniwyd ateb Gwynedd yn manylu cost ei gynnal. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gywilydd bod Gwynedd yn bwriadu ei gau oherwydd cyn lleied y gost. Ychwanegwyd bod toiledau lleoedd eraill yn cael eu cadw er bod eu costau yn llawer mwy, er enghraifft, mae toiledau Dinas Dinlle yn cael eu hatgyweirio yn barhaol. Dywedodd Phyllis Ellis os ocs angen dadl i'w gadw ar agor i ddefydd twristiaid, bod ei leoliad ar daith ymwelwyr 1st Hydro o Lanberis i Marchlyn. Penderfynwyd ar gais i Wynedd barhau i'w gynnal.

Ffordd Cae Hywel, Penisa'rwaun. Derbyniwyd cadarnhad Gwynedd bod trefniant i'w glanhau yn fuan.

Cynllun Unedol Gwynedd.

Derbyniwyd adroddiad a disc Gwynedd ar Dai Fforddiadwy a

Dogfen Ymgynghorol Ad-drefnu Ysgolion Gwynedd. Penderfynwyd gwahodd Mr Aled Evans, Adran Cynllunio Gwynedd, i gyfarfod arbennig i drafod y materion yma.

Gohebiaethau eraill

Fforwm Padarn. Derbyniwyd gwahoddiad am gynrychiolydd o'r Cyngor. Cynigiwyd Elspeth Mitcheson a derbyniodd hithau'r cyfrifoldeb.

Delweddau Gareth Roberts.

Trafodwyd ei fwriad i baratoi 'Prosiect Hanes

Llanddeiniolen', mewn cysylltiad â bwriad y Cyngor i ffurfio hanes ynghlwm â llwybrau. Penderfynwyd ei wahodd i gyfarfod y Cyngor.

Fforwm Celfyddydau Gwynedd. Derbyniwyd crynodeb o hanes y Fforwm a'u rhaglen i'r dyfodol. Dangosodd Phyllis Ellis ac Elspeth Mitcheson ddiddordeb.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Adeiladu tŷ yng ngardd Gwynant, Bethel.

Adeiladu wyth tŷ fforddiadwy: tir gyferbyn ag Ystad Rhoslan, Bethel.

Penderfynwyd gofyn i Wynedd ohirio'r ddau gais uchod hyd nes bydd y gwasanaeth carthffosiaeth wedi ei wella.

Ymestyn Cartref Penisa'rwaun: penderfynwyd gwrthwynebu rhan o'r estyniad i fod yn dri llawr.

Ceisiadau eraill a dderbyniwyd: Adeiladu tŷ a rhodfa: tir Tyddyn Perthi, Penisa'rwaun.

Cais amlinellol i adeiladu tŷ: 35 Bro Rhiwen, Rhiwlas.

Estyniad: 2, Glan y Gors, Dinorwig.

Estyniad: Ivy Cottage, Bethel.

Newidiadau i'r tŷ presennol ac estyniadau deulawr: Pen Dyffryn, Dinorwig.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Ymestyn y cwrtil presennol: Madryn, Bethel.

Cynllun diwygiedig i'r hyn a ganiatawyd: lladd-dy Cefn Coch, Deiniolen.

Dymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ newydd: Garth Farm, Nant y Garth.

Estyniad gwydr yn y cefn: Pen Dinas Mawr, Penisa'rwaun.

Adeiladu tŷ: Plot 1, Bryn Eglwys, Penisa'rwaun.

Cais a wrthodwyd gan Wynedd: Estyniad uwchben y modurdy: llain o dir ger Tan y Foel, Gallt y Foel.

Adroddiadau

Dywedodd Elspeth Mitcheson bod yr Adran Briffyrdd yn patsio o gwmpas yr *humps* arafu trafndiaeth yn barhaol, angen gofyn i Wynedd faint y mae hyn wedi'i gostio. Dywedodd Merfyn Morris bod rhaid llenwi twll o fewn 24 awr, ac atgyweirio'n barhaol cyn gynted â bo modd.

SNOWDONIA PARK WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Rydym yn croesawu Mrs Rhian Whiteside Thomas atom i'r dosbarth Meithrin ac yn dymuno'n dda i Mrs Rhian Hughes ar ei secondiad.

Llongyfarchiadau i Llinos ac Einion Evans ar enedigaeth eu mab, Ifan Aled, a anwyd yn ystod mis Chwefror. Dymuniadau gorau i chi fel teulu ac edrychwn ymlaen i gyfarfod Ifan bach.

Croeso i Gwen Owens sydd hefo ni tra bod Mrs Llinos Evans ar absenoldeb mamolaeth.

Aeth blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad â Chastell Caernarfon fel rhan o'u gwaith thema a mwynhaodd pawb yn fawr iawn.

Daeth Siân Davies i ddangos lluniau o Tseina fel rhan o waith disgyblion blwyddyn 1 a 2 ar Flwyddyn Newydd y Tseineaid. Diolch iddi am rannu ei phrofiadau.

Mae prysurdeb mawr wrth baratoi ar gyfer Eisteddfodau'r Urdd - dymunwn bob llwyddiant i bawb.

Deth Techniquet i'r ysgol i gynnal gweithdy Grymoedd diddorol iawn i flwyddyn 3 a 4.

Mae Ynyr Roberts wedi bod yn dod at ddisgyblion blwyddyn 6 i gynnal gweithdai 'Garage Band'.

Bu criw yn cystadlu yn nhwrnament Pêl-rwyd yr Urdd. Da iawn chi.

DYMUNA. Beryl a Gareth ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli modryb annwyl. Diolch i'r holl Ofalwyr Cartref, i Mrs Paul a Staff Cartref Nyrsio Penisarwaun, y Parchedigion Marcus Robinson, Dafydd Hughes a Bryn Williams.

Diolch am y cyfraniadau hael at Apêl Sierra Leone a Chymdeithas y Byddar. Diolch arbennig i'r ymgymmerwr, Dylan Griffiths, Penisarwaun, am drefniadau trylwyr a gofalus.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 am fis Chwefror oedd: £20: Mr T. Davies, Llys Alaw; £7: Mrs V. Williams, Awelon; £5: Mrs E. Jones, 4 Hafan Elan.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Meilyr Sion Owen, Hafod, Y Rhos, Ffordd Llanberis, enillydd 'Prentis y Flwyddyn' ail orau mewn Peirianeg Trydanol. Derbyniodd ei wobwr yn ystod Noson Wobrwy Prentisiaeth 2007 Coleg Menai ar 6 Chwefror. Da iawn, Meilyr.

BRYSIWCH WELLA. Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i: Mrs Amy Smith, Rhos Rhyddallt, ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri; Mr a Mrs Bob Thomas, 54 Nant y Glyn; Mrs Mai Jones, Glanmoelyn, yn dilyn damwain.

Brysiwch wella yw'n dymuniad i unrhyw un arall sydd ddim yn dda yn yr ardal hefyd.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ar 12 Chwefror yn y Sefydliad Coffa. Oherwydd amyglichiadau dwys ni allai Gwenllian Parry, ein gwraig wadd, fod yn bresennol a darllenwyd llythyr o ymddiheuriad ganddi gan y Llywydd, Megan Roberts. Anfonir ein cofion anwylaf at Gwenllian.

Llongyfarchwyd y ddau dîm Bowlio Deg ar ddod i'r brig yn y Twrnameint a phob dymuniad da i'r genod yn y rownd nesaf.

Roedd pawb yn falch o weld Ann Lloyd wedi gwella wedi'i gwaeldd yn ddiweddar.

Trefnwyd Caffi Merched y Wawr Llanrug yn yr Eisteddfod Cylch yn Ysgol Brynrefail a diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau a'u gwaith caled.

Diolchwyd i Mair Huws am gefnogi Distawrwydd Noddedig, Pwyllgor yr Anabl ac anfonir ein cofion gorau at Mrs Beryl Thomas. Enillwyd y raffl gan Ann Ifans.

Sylwer mai ar 4 Mawrth y byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi, gyda John Eifion a'r teulu. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael a gofynnir yn garedig i'r aelodau ddod â phlât gyda nhw.

DRAENOG



Er bod y 'Dolig wedi bod, y mae'n ddyletswydd arnom ni gyhoeddi'r hanes canlynol. Bu i greadur gweithgar tu hwnt, ac annwyl dros ben, sy'n byw ym mhlwyf Llanddeiniolen benderfynu mai ef, gan bod ei gymar yn feichiog, fyddai'n gofalu am goginio'r tyrci ar ddydd San Steffan. Oho! popeth yn iawn, onidê! Ond pan ddaeth hi'n amser y bwydo mawr roedd pawb oedd yno yn ogleuo rhyw ddrwg! Wir i chi, tu mewn i'r tyrci cafwyd llanast go iawn. Doedd fy ngwas i ddim wedi tynnu'r giblets na'r cwdyn plastig oddi yno, a'r cyfan wedi llosgi'n ulw golsyn!

Cefnogwch
ein Hysbysebwyrr

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG
677362

neu symudol

07979
620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

Colofn y Plant

Clwtyn Criw Triw hefo Smonach Bach



Gyrddi-Wenfflam yn Cyrraedd Clegir

Dyma fi, Smonach Mawr, yn ista'n hapus yn fy nghar ac yn cael mynd am dro. Dyma fi'n cyrraedd rhiw Clegir.

Enw'r car ydi Gyrddi-Wenfflam. Ew! Car da ydi o! Grrrr! Wd! Wwww! Ffwd! Ffwd! Dwd! Y mae Gyrddi-Wenfflam yn aros! Mae Gyrddi-Wenfflam yn gwrthod yn glir â symud. Mae o wedi aros yn stond ar ben rhiw Clegir.

O'r annwyl mawr! Lwcus nad ydi Smonach Bach yma i weld hyn i gyd! Mae Gyrddi-Wenfflam, a finna wedi aros yn stond ar ben rhiw Clegir.



O'r annwyl bach! Mae'n rhaid imi deliffonio Jason Lori-Dod-i-Nôl-Ceir-Sy'-Wedi-Malu. Mi ddaw Jason yma i nôl Gyrddi-Wenfflam. Mi fydd o'n gwybod beth i'w wneud! Mi fydd Jason yn mynd â Gyrddi-Wenfflam i'r Ysbyty-Trwsio-Ceir-Sy'-Wedi-Malu yn Cwm!

Mae Jason wedi cyrraedd rhiw Clegir. Rydan ni'n rhoi Gyrddi-Wenfflam yn nhu ôl y lori. Grrrr! Grrrr! Rydan ni'n mynd â Gyrddi-Wenfflam i'r Ysbyty-Trwsio-Ceir-Sy'-Wedi-Malu yn Cwm! Ond Ow! Ow! Ow! Wedi inni gyrraedd yr Ysbyty-Trwsio-Ceir-Sy'-Wedi-Malu yn Cwm - dydi Gyrddi-Wenfflam ddim ar du ôl y lori. O'r annwyl mawr a bach! Ble mae o?

Mae Jason a finna'n mynd i ben ucha rhiw Clegir, ond does 'na ddim arwydd o Gyrddi-Wenfflam yn unman. Rydan ni'n chwilio ymhob man, ond mae fy nghar del i wedi diflannu. Ow! Mae o ar goll!

Y mis nesa cawn weld be sy wedi digwydd i Gyrddi-Wenfflam. A oes a wnelo Smonach Bach ryw beth â diflaniad sydyn Gyrddi-Wenfflam?

Tybed yn wir! Mi fydd yn rhaid i chi aros tan mis Ebrill cyn cael gwybod!



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref

01248 679089 • 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED.

Y Cynulliad. Pnawn dydd Mawrth, 5 Chwefror, daeth Ann Owen Williams draw i'r ysgol i roi sgwrs i blant CA2 am waith y Cynulliad. Roedd y wybodaeth a gawsant yn dderbyniol iawn gan eu bod yn bwriadu ymweld â'r Cynulliad yn ystod eu taith i Gaerdydd rhwng Chwefror 18-20.

Cyfeillion yr Ysgol. Mae'r Cyfeillion yn trefnu Ffair Wanwyn ar dir yr ysgol ar gyfer dydd Sadwrn, 12 Ebrill. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r Eco. PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Ionawr oedd Mrs Janice Jones, Tyddyn Perthi, gyda rhif 24. Llonyfarchiadau! RAFFL Y PASG. Bydd raffl yn cael ei gwerthu yn ystod yr wythnosau nesaf, gydag amryw o wahanol wobrau, gyda'r elw'n mynd tuag at Gronfa Pensiynwyr Penisarwaun. Diolch am eich cefnogaeth fel arfer.

PRIODAS RUDDER.

Llonyfarchiadau i Dafydd a Helen Owen, 7 Bryn Hyfryd, ar ddathlu eu Priodas Ruddem ar 17 Chwefror.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llonyfarchiadau i David Kyle, 9 Bryn Tirion, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod mis Chwefror.

Llonyfarchiadau hefyd i Haydn Jones, 24 Bryn Tirion, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21ain ar 28 Chwefror.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i Mrs Heulwen Evans, Fferm y Gors, Waun, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DYMUNA Heulwen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, y blodau a'r rhoddion wedi'i llawdriniaeth.

PWYLLGOR NEUADD.

Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a Chwefror. Enillwyr Ionawr: Elwyn Williams, Bryn Rhydd; Mathew Philips, Tai Arthur; Phyllis Elis, Rhos Fair.

Chwefror: Wil Jones, 24 Bryntirion; Bronwen Jones, Cae Corniog Bach; Brenda Richardson, 6 Brynhyfryd.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol ac etholwyd Mr Leslie Larsen fel Is-drysorydd. Leslie sy'n gyfrifol am y Clwb Cant o hyn ymlaen a diolchir iddo am ysgafnhau y gwaith i'r Trysorydd, Dafydd Williams.

Wedi'r cyfarfod cynhaliwyd pwyllgor i drefnu gweithgareddau i godi arian tuag at reoli'r Neuadd Gymuned.

• **9 Mai:** Cynhelir **Miri Mai**, ar y nos Wener.

• **11 Gorffennaf:** cynhelir **Ras Peli**.

• **17 Rhagfyr:** Yn dilyn Noson Wasael lwyddiannus 2007 cynhelir Noson Wasael ac Ocsiwn addewidion.

YSGOL SUL BOSRA. Dyma dymor y Cymantuoedd ac amser prysur i athrawon a phlant yr ysgol Sul. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Deiniolen a Chwm y Glo yn festri Capel Ebenezer, Deiniolen bawn Sul, 18 Mai am 2 o'r gloch.

APÊL Y CAPEL. Cynhelir Cyngerdd yn y Neuadd Gymuned ar nos lau, 17 Ebrill, am 7.00 o'r gloch gyda Chôr y Waun, Waunfawr, a thalentau lleol. Bydd manylion llawnach yn y rhifyn nesaf.

EGLWYS SANTES HELEN. Edrychir ymlaen i groesawu y Parch Lloyd Jones fel Ficer newydd yr Eglwys. Sefydlir ef yn Eglwys y Felinheli ar 10 Ebrill.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN - DEINIOLLEN - LLANRUG A LLANBERIS

Ffoniwch Dylan (Llys)

ar 871833

Symudol-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorffwys Preifet

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pnawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

ANGEN DOSBARTHWR Mae nifer o drefnwyr/dosbarthwyr yr Eco yn Llanberis a Nant Peris wedi penderfynu rhoi eu swyddi i fyny ar ôl i'r rhifyn yma, sef rhifyn Mawrth, gael ei ddosbarthu.

Dymunwn ddiolch i Gwenda am ymgymeryd â'r gwaith yn y Nant dros y blynnyddoedd. Dylem gydnabod fod y trefnwyr /

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams,
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SYMUD ARDAL. Bydd Audrey Hasson, Llys Myfyr, yn symud i fyw i Gaernarfon yr wythos hon. Wedi bod yn ein plith am gyfnod maith bydd yn chwith ei cholli o'n mysg. Symudodd hi a'i phriod a'u mab, Carl, oedd ond teirblwydd ar y pryd, o ardal Birmingham i Frynrefail i gadw Siop Elidir tua hanner can mlynedd yn ôl. Mae llawer un yn cofio mor rhugl yn y Gymraeg y daeth Carl mewn byr o dro ymysg ei ffrindiau yn yr hen Ysgol Fabanod. A hithau ar drothwy ei 86 oed, dymunwn yn dda iddi yn ei chartref newydd.

O'R YSBYTY. Bu Ian Long, The Nook, am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddo.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.
OEDFAON MAWRTH

2: am 10.00, Y Parchg S. O. Hughes, Bae Colwyn;

Blodau Racca

(ALWYN AND SARAH JONES)

Ffôn 870605

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
 - Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
 - Gwasanaeth Tudalennau Siarad/Talking Pages 118 247
 - Planhigion Gardd a Basgedi Crog
- RHODD O'R GALON YW BLODAU

dosbarthwyr ym mhob ardal wedi bod yn hanfodol i lwyddiant yr Eco ers y cychwyn!

Felly, mae angen dosbarthwr newydd i wneud y gwaith yn Nant Peris. Bydd yn gyfrifol am fynd â'r Eco o dŷ i dŷ, casglu'r arian amdano, unwaith y flwyddyn fel arfer, a throsglwyddo'r arian hwnnw i'w trefnydd.

Os teimlwch y gallech ymgymeryd â'r gwaith, unwaith y mis er budd ein papur lleol, cysylltwch ag Eifion Roberts (870740) cyn gynted â phosib.

- 9: am 5.30, Y Parchg Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon;
16: am 5.30, Mr J.O. Roberts, Bethesda;
23: Sul y Pasg am 5.30
Y Parchg Marcus Wyn Robinson, Bethel
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd;
30: am 5.30, Y Parchg Reuben Roberts, Bontnewydd.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Cyfarfu aelodau'r gangen nos lau, 21 Chwefror, dan lywyddiaeth Pat Jones yn y Caban, Brynrefail. Rhoddwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod.

Ar ôl trafod materion y mudiad, croesawyd ein gŵr gwadd, sef y Prifardd Selwyn Griffith, a chafwyd noson ddifyr a hwyliog ganddo yn sôn am gymeriadau ddoe a heddiw.

Paratowyd y te gan Meinir ac Eluned, ac enillwyd y raffl gan Jennie Hughes. Diolchwyd i'r genod te gan Megan.

Ar nos lau, 20 Mawrth, edrychir ymlaen i ddathlu Gŵyl Dewi yn y Faenol Arms, Nant Peris am 7 o'r gloch.

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwyd Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

JONI NI

'Dach chi'n cofio helbul Joni druan yn y gwesty 'na? Wel, dyma fi wedi gweld yr union job iddo fo. Wir! Dyn lolipop o flaen ysgol y pentra 'ma.

'Tyd wir, Joni bach. Ma gin ti gyfweiliad - interfiw hefo Pennaeth yr Ysgol Gynradd am ddeg.'

'Dwi wedi blino, Mam,' atebodd, gan ddylyfu gên.

'Wedi blino, wir! Be ti 'di neud i flino, hogyn?'

'O.K. mam! Dwi'n dŵad rŵan.' A daeth i lawr y grisiau'n ara deg braf.

'Wel shapia hi, Joni, neu mi fyddi di'n hwyr i'r interfiw, a bwyta dy frecwast cyn cychwyn allan, da ti.'

Croesodd ei fam ei bysedd unwaith eto, fel mae'n ei wneud bob tro cyn cyfweiliad.

Cyrhaeddodd yr ysgol ar ben deg o'r gloch ac arweiniodd yr ysgrifenyddes ef i ystafell y Pennaeth.

'Wel, Mr Jones, steddych i lawr.'

Cochodd Joni gan edrych yn hurt - doedd neb wedi'i alw'n 'Mistyr Jones' o'r blaen!

'Diolch, Mr Hughes. Newch chi alw fi yn Joni, plis?'

'Wel, Joni, mae 'na job dyn lolipop yn mynd ar gyfar tair wsnos ola'r tymor 'ma. Mi ro i dreial ichi ac os gnewch chi'r gwaith yn dda, Joni, mi gewch aros ar gyfer dechrau'r tymor nesaf 'ma. Tua pymtheg awr yr wsnos ac ma'n rhaid ichi fod wrth y groesfan...'

'Groesfan, Mr Huws?' gofynnodd mewn penbleth llwyr.

Ochneidiodd y Pennaeth, 'Sebra crossing, Joni, lle ma'r plant yn croesi'r ffordd i'r ysgol bob dydd,' atebodd yn ddiamynedd.

'O ia shŵr. Mi wn i.'

'Wel, mi fydd yn rhaid i chi fod yno erbyn hanner awr wedi wyth bob bora, mynd adra wedyn a dod yn ôl erbyn hanner dydd, adra eto a dŵad yn ôl eto erbyn amsar i'r plant fynd adra - cyn tri o'r gloch.'

'Ew, Mr Huws, mi fydda i'n ôl a blaen drw'r dydd felly. Ydi hi'n werth imi fynd adra, dwch?'

'Peidiwch â bod yn hy, Joni. Dydych chi ddim yn byw yn bell iawn o'r ysgol, ydych chi, ac mi

fedrwch gal bwyd adra a dod at yr ysgol mewn pryd... Os nad ydych chi ishio'r job...'

'Ydw, shŵr,' torrodd ar draws Mr Huws.

'Wel, mi gewch eich talu bob wsnos, ac mi fydd gennych het a chôt felen gynnes erbyn y gaeaf, Joni.'

'Ww - côt felyn, Mr Huws.' Cododd calon Joni a medrai ei weld ei hun yn yr het a'r gôt smart.

'Wel, gymrwch chi'r job, Joni?'

'Cymraf, Mr Huws. Diolch yn fawr iawn. Pryd ga i ddechra?'

Daeth y dydd Llun ac roedd Joni wedi codi'n fore, wedi gwisgo ei iwnifform ac yn sefyll yn bwysig hefo'i arwydd lolipop mawr wrth ochr y groesfan.

Dechreuodd y rhieni a'r plant gyrraedd o gwmpas hanner awr wedi wyth. Edrychodd Joni i'r ddau gyfeiriad, camu'n bwysig i ganol y briffordd gan ddal y traffig yn ôl hefo'r lolipop ac annog y plant i groesi. Erbyn diwedd wythnos reit lwyddiannus, roedd wedi dod i nabod y rhan fwyaf o'r plantos a'u rhieni ac roedd y Pennaeth yn hapus iawn hefo'i waith.

Bob dydd byddai gan Joni ddigon o amser i alw yn y siop da-da, a meddyliodd y buasai'n syniad da i rannu da-da i'r plant ambell fore (ar ôl i'r rhieni eu gadael wrth y groesfan) ac amser mynd adref. Ni fyddai mamau y rhan fwyaf o'r plant yn dod i'w cyrchu yr adeg honno - byddai y rhelyw ohonynt yn ffeindio eu ffordd adref gyda'i gilydd.

Ond yn raddol digwyddodd rhywbeth rhyfedd i'r plant - doedd arnyn nhw ddim chwant bwyta cinio ysgol o gwbl, dim ond pigo'u bwyd gan adael y rhan fwyaf ar ôl. Roedd merched y cantin yn flin dros ben ac mcwn penbleth beth oedd yn bod hefo'r plant. Yn ôl y rhieni, doedd y rhan fwyaf ohonynt ddim ishio bwyta eu te ar ôl mynd adref chaith.

Dechreuodd y rhieni alw i weld y Pennaeth a chwyno, gan fod llawer ohonynt yn rhoi pres i'w plant bob dydd i brynu cinio yn yr ysgol. Roedd y plant wedi gwrthod dweud pam fod ganddynt bocn yn eu bol ac nad

oedd arnynt awydd cinio ysgol. Erbyn hyn roeddynt wedi dod yn reit hoff o Joni (ac yn ddistaw bach roeddynt wrth eu boddau yn cael da-da ganddo).

Aeth rhai o'r mamau cyn belled â dweud bod bai ar ferched y cantin a bod eu plant wedi syrffedu ar yr un bwyd a gaent bob wythnos. Sicraodd y Pennaeth hwy bod bwyd da iawn yn ei ysgol bob amser a bod y merched yn ofalus iawn, iawn hefo'r math o fwyd a gâi'r plant. a bod amrywiaeth helaeth o fwyd i'w gael. Addawodd edrych i mewn i'r mater.

Wedi pendroni dipyn sylweddolodd bod y broblem, yn rhyfedd iawn, wedi ymddangos yn union ar ôl i Joni ddechrau fel dyn lolipop bythefnos ynghynt. Rhyfedd iawn, iawn! Fuodd na ddim trafferth o gwbl hefo'r cyn-ddyn lolipop, Mr Williams, a byddai'r plant yn mwynhau cinio ysgol bob dydd. Gofynnodd i un o'r athrawon wyllo Joni yn y bore a'r pnawn drwy gydol wythnos ola'r tymor.

Ddechrau'r wythnos ddilynol cuddiodd un o'r athrawon wrth bostyn giât ffrynt yr ysgol gan wyllo'n slei. Ar ôl i'r rhieni adael y plant wrth y groesfan, gwelodd yr athrawes Joni'n mynd i'w boced a'r plant yn heidio o'i gwmpas ac yntau'n rhannu'r da-da i bawb. Aeth hynny ymlaen bob bore a phnawn drwy'r wythnos. Brysiodd yr athrawes at Mr Huws cyn i Joni ddod i mewn ddiwedd pnawn ola'r tymor.

'Brensiach!' meddai'r Pennaeth. Does ryfedd nad ydy'r plant isio bwyta cinio ysgol na the ar ôl mynd adref. Diolch, Miss Roberts, mi ga i air hefo fo. Dyma fo ar y gair.' Diflannodd Miss Roberts a cherddodd Joni i mewn i ystafell y Pennaeth yn wên o glust i glust gan ddisgwyl, wrth gwrs, am ei becyn cyflog.

'Steddych, Joni. Dwi isio gair hefo chi,' meddai'r Pennaeth yn sarrug wrth Joni, a oedd erbyn hyn yn edrych yn reit llwfr yn y gadair. 'Ydach chi'n rhannu melysion...?'

'Melysion, Mr Huws?'

'Da-da. Joni!' Ychwanegodd yn fwy blin fyth, 'Ydach chi'n

rhannu da-da i'r plant 'ma yn y bora ac wedyn amser mynd adref?' Dechreuodd Joni wingo yn y gadair fel petae miloedd o bryfed yn ei ddillad.

'Ydw... Mr Huws... Meddwl y basa'r hen blant yn licio cal rhywbeth i'w cadw nhw i fynd yn ystod y dwrnod... a nhwtha'n gweithio mor galad drw'r dydd te, Mr Huws.'

Gwylltiodd y Pennaeth gan daro'r bwrdd yn galed â'i ddwrn nes roedd Joni'n neidio'n llwyr o'i gadair.

'Rhywbeth i'w cadw nhw i fynd, Joni? Ma cinio ysgol yn i' cadw nhw i fynd ac ma 'na reol yn yr ysgol 'ma i beidio bwyta fferins yn ystod y dydd... a dwi ddim isio rhieni yn dŵad ata i hefo cwyn am ddannadd eu plant a bod gynnon nhw boen yn eu bol bob dydd ac yn methu bwyta eu te ar ôl mynd adra, a phrun bynnag, Joni, busnes y mamau ydi rhoi da-da i'w plant y tu allan i oria'r ysgol, nid chi, Joni.'

Chafodd Joni ddim cyfle i agor ei geg o gwbl.

'Joni, dyma dy gyflog di am yr wsnos...'

'Diolch yn fawr, Mr Huws. Wela i bawb dydd Llun, ia?'

'Na newch neno'r tad, Joni... Dyma'ch dwrnod ola chi yn yr ysgol yma.' Ac ychwanegodd, 'Dydach chi ddim wedi pasio'r treial, Joni, a thynnwch yr iwnifform 'na a'i gadal i'r ysgrifenyddes yn yr offis.'

'Plis! Plis, Mr Huws! Ga i chance eto gynnoch chi?'

'Wel, na chewch wir. Dwi wedi bod yn ddigon teg hefo chi,' Arweiniodd y Pennaeth ef at y fynedfa allan o'r ysgol. 'Miss Roberts, gnewch hysbyseb arall am ddyn lolipop ar gyfer dechrau'r tymor newydd,' ac ychwanegodd, 'Ma Mr Jôns yn mynd rŵan, onid ydych chi, Joni?'

Joni druan, yntê. Aeth allan o'r ysgol yn benisel iawn. Roedd o bron â chrio, a deud y gwir, ac yn fwy fyth roedd o ofn mynd adra at ei fam hefo'r newydd drwg - yr un newydd drwg a gâi ar ôl trio pob job i fyny i rŵan. Wel wir, be ddaw ohono, dwedwch.

Em.H.

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan




(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Ysgol Brynrefail

Ymweliad blwyddyn 7 â Glanllyn



Diolch yn fawr i Mr Penri Jones a Mr Arwel Stephen am fynd gyda blwyddyn 7 am benwythnos i Lanllyn. Diolch i Lowri, Glesni a Christy o flwyddyn 12 hefyd. Cafwyd penwythnos arbennig o dda a dyma adroddiad am y gweithgareddau gan Harri Kyle:

Glan Llyn

Ar ddydd Gwener, Ionawr 18, aeth blwyddyn 7 Ysgol Brynrefail, Mr Arwel Stephen a Mr Penri Jones i Glan Llyn. Ar y dydd Gwener aethon ni i'r gampfa chwaraeon i ddawnsio gwerin. Cawsom hwyl a sbri yn dawnsio ac roedd pawb yn hapus.

Ar fore braf dydd Sadwrn aethon ni i Fowlio Deg. Roedd yn hwyl mawr. Yr ail weithgaredd oedd canwio. Cawsom lawer o hwyl yn canwio ac yn rasio. Y trydydd

gweithgaredd oedd dringo. Roedd y dringo yn hwyl hefyd ond yn anodd oherwydd bod y tywydd yn wlyb.

Y gweithgaredd olaf cyn te oedd adeiladu rafft efo bareli, rhaffau a phren. Cefais hwyl yn gwneud hyn a'r peth gorau oedd disgyn i mewn i'r dŵr oer. Ar ôl te aethom i'r gampfa i wneud gemau chwaraeon. Roedd pawb yn mwynhau er fod y llawr yn wlyb a phawb yn disgyn bob amser! Yna, cawsom ddisgo yn y neuadd! Dyma hwyl go iawn a mwynhaodd pawb yn fawr.

Ar fore Sul ar ôl brecwast aethom i'r pwll nofio. Cawsom hwyl yno a phawb yn hapus. Ar ôl cinio, y gweithgaredd olaf oedd llafnrolio. Roedd hyn yn hwyl ond roedd llawer o bobl yn disgyn drosodd! Ar ôl hynny roedd yn amser mynd adref.

Cawsom hwyl a sbri yng Nglanllyn a mwynhaodd pawb y penwythnos gwyh!

Seiclo o Gaernarfon i Gaerdydd



Mae dau aelod o flwyddyn 11, Gary Leadbitter a Sion Garth Owen, am seiclo o Gastell Gaernarfon i Gastell Caerdydd er mwyn codi arian at achos da. Mae gan Gary gefnder, sy'n byw yn Coventry, ac mae'n dioddef o Muscular Dystrophy, a'i obaith yw casglu o leiaf £500. Mae'r afiechyd yn golygu ci fod yn dibynnu ar lawer o offer drudfawr ac arbenigol, o gadeiriau olwyn i lifftiau. Mae hefyd yn gorfod teithio'n aml o Coventry i Lundain i gael

triniaeth. Mae Gary yn awyddus iawn i gynhorthwyo ci gefnder fel ei fod yn cael bywyd llawn.

Mehefin 21ain yw dyddiad y daith bwysig a bydd y ddau yn dechrau hyfforddi'n fuan. Eu gobaith yw gwneud y daith mewn un diwrnod - dipyn o sialens felly.

Os ydych yn awyddus i noddi'r hogia yna cysylltwch â Gary ar

garyleadbitter@hotmail.com

Pob lwc i chi hogia!

Brynrefsar y Radio



Dyma'r criw o flwyddyn 7 a fu'n siarad gyda Lisa Jane. Y bechgyn a gymerodd ran oedd Gethin Pritchard, Aaron Jones, Liam Rowlands, Chris Hammer, Deian Williams a Dafydd Llywelyn.

Daeth Radio Cymru i'r ysgol ar ddydd Gwener, 8 Chwefror. Roeddynt am recordio bl 7 yn coginio ac yn sôn pam y maent yn hoffi coginio. Y rhaglen oedd BLAS a holwyd y plant gan Lisa Jane. Cafwyd mewnbwn gan rai o fechgyn blwyddyn 9 ac 11, gan mai pwyslais ar bwysigrwydd

cael y bechgyn i goginio mwy oedd thema'r rhaglen.

Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i wrando arnynt a bod yr hyn a glywyd yn codi ysa arnoch chi fechgyn i fod yn gogyddion y dyfodol. Gwylwch eich hun Dudley!!

Noson i ddau yn yr Hilton!

Ydych chi awydd noson o foethusrwydd? Beth am noson i ddau yng ngwesty'r Hilton? Mae Cyfeillion Ysgol Brynrefail yn trefnu Raffl Pasg a dyna yw'r wobwr gyntaf. Mae gwobrau bendigedig eraill hefyd!

Cyntaf: Noson i ddau yn yr Hilton (diolch i 'Gwyliau Seren Arian')

Ail: Mainc bicnic (diolch i 'Menter Fachwen')

Trydydd: Cinio dydd Sul yng

Ngwesty'r Victoria, Llanberis ac amryw o wobrau eraill.

Mae pob disgybl ym mlwyddyn 7-9 wedi derbyn 5 llyfryn yr un o docynnau raffl i'w gwerthu er mwyn codi arian i brynu nwyddau, offer angenrheidiol ac ati i'r ysgol. Y gobaith yw y bydd pawb yn gwerthu eu tocynnau erbyn y 7fed o Fawrth. Bydd gwobrau i'r gwerthwyr gorau, wrth gwrs! Felly, cofiwch gefnogi!

Crefftwaith a Chydlafulio!

Hanes y diwydiant llechi yng Nghymru!



DIWRNOD GWYCH I'R TEULU OLL AG I GYD AM DDIM!

arddangosiadau dyddiol ... olwyn ddŵr enfawr ...

tai Chwarelwyr ... lle chwarae i blant ...

Una yr injan stêm ... gweithgareddau i blant ...

siop a chaffi... a llawer iawn mwy!!

Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis
Parc Gwledig Padarn
Llanberis Gwynedd LL55 4TY
☎(01286)870630

www.amgueddfacymru.ac.uk

Ar agor yn ddyddiol Pasg - Hydref 31 10am-5pm

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300, Enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr oedd: £40: Ms Catrin Lowri, 3 Dros y Waun; £25: Ms Carmen Pierce, Snowdonia Park Hotel; £10: Mr Tegid Pritchard, Min y Grug.

DIOLCH. Dymuna Arwel, Blaen y Nant, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

NOSON BLYGU DDA. Dyna a gawsom ni yma yn y Waun ddiweddd Ionawr. Diolch o galon i'r 'ffyddloniaid' a'r plygwyr newydd ddaeth i festri'r capel drwy'r cawodydd eira! Ychydig funudau wedi chwech o'r gloch daeth llais clir Olwen drwy'r sgwrsio yn cyhoeddi 'STOP', rydym wedi plygu digon. Diolch hefyd i'r casglwyr o'r pentrefi am ddod i'w nôl yn syth. Diolch i swyddogion Eglwys y Waun am eu caredigrwydd yn caniatáu inni wneud y gwaith plygu yn y festri. DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau i Angharad Owen, Stad Tŷ Hen, ar gyrraedd ei deunaw oed. Dymuniadau gorau iti i'r dyfodol, Angharad.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i Karen a Michael Owen, 1 Stad Bro Waun, ar enedigaeth mab bychan. Mae Guto Wyn yn frawd bach newydd i Fiona, Thomas, Emily a Chloe, yn ŵyr i Megan Williams, Bryn Difyr a Dennis Bound, Stad Bro Waun, ac yn or-ŵyr i Mrs M. Jones, Glasfryn.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i Mr David Parry, Stad Bro Waun, sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. ADREF O'R YSBYTY. Oherwydd anhwylder, gorfu i Anest Bryn, Hafod y Perthi, a Luc Thomas, Tan-y-Foel, dreulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty.

Dymunwn wellhad buan hefyd i Mr Tony Brown, Stad Bryn Golau, wedi iddo dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Gobeithiwn yn fawr eich bod i gyd yn gwella erbyn hyn. DAMWAIN CAR. Gobeithiwn fod Helen Brown, Stad Bryn Golau, a Wendy Thomas, Tan-y-Foel, yn gwella wedi iddynt fod mewn damwain yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Gwilym Williams a theulu Fferm Bod Hyfryd yn eu profedigaeth o golli chwaer Mr Williams yn ddiweddar.

YSGOL WAUNFAWR

Sioe Atal Ysmygu. Dydd Llun, 21 Ionawr, cafwyd sioe atal ysmygu i flynyddoedd 4, 5 a 6. Ymatebodd y plant yn wych i gwmni Smoke Bugs a bu'n brofiad addysgol gwerth chweil.

Cystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd. Diolch i Mrs Sioned Parry a'r rhieni am ofalu am y tîm pêl-rwyd a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd a gynhaliwyd ym Mhlas Silyn, Penygroes, ddydd Sadwrn, 26 Ionawr. Braf iawn yw eu llongyfarch am ddod yn gydradd drydydd. Da iawn, genod!

Gweithdy Cerdd. Cynhaliwyd gweithdy cerdd i blant yr Adran Iau gan Mrs Yvonne Clarke, yr athrawes offerynnol, ddydd Mercher, 30 Ionawr. Cafwyd sesiwn ddiddorol iawn a mawr yw y gobaith y bydd mwy eto o blant yn dangos diddordeb i gael gwersi offerynnol o fis Medi nesaf ymlaen.

Ymweld â'r Warws Werdd a Chaergylchu. Yn dilyn ymweliad Gwenllian â'r ysgol ddechrau Ionawr, aeth holl blant yr Adran Iau i ymweld â'r Warws Werdd a Chanolfan Caergylchu yng Nghaernarfon ddydd Llun, 4 Chwefror. Roedd yr ymweliad yn cydfynd â'r gwaith ar ddefnyddiau y byddwn yn astudio yn ein gwersi gwyddonol y tymor yma. Diolch unwaith eto i Gwenllian a'r staff am bawn difyr dros ben.

Dyddiadau i'w Cadw Mewn Cof:

- Dymunwn yn dda i aelodau'r Urdd a fydd yn cystadlu yn Eisteddfodau'r Urdd ddydd Sadwrn a dydd Mercher nesaf.
- Cynhelir ein Ffair Lyfrau flynyddol yn ystod wythnos 25-28 Chwefror.
- Cynhelir Nosweithiau Rhieni yn ystod yr wythnos sy'n cychwyn 10 Mawrth.
- Dydd yr ysgol yn cau ddydd Iau, 20 Mawrth, ac yn ailagor i blant ar ddydd Mawrth, 8 Ebrill.



Ymweld â'r Warws Werdd a Chaergylchu.

TAN Y COED

DIOLCH. Dymuna Megan Thomas, Llys Meredydd, Tan-y-Coed, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

Iola Butler

Ar 17 Ionawr, ar ôl oes hir, iach a hapus, bu farw Iola Butler, gweddw y diweddar Isaac, yn 95 oed yng Nghartref y Foelas, Llanrug.

Ganwyd Iola ym Mur Coch, Cwmyglo, ac wedi hyfforddiant yn y Coleg Normal bu'n dysgu am dair blynedd ym Mhrestatyn cyn dychwelyd, ar ôl priodi, i gadw siop Sgwâr Llanrug am gyfnod cyn y daeth Isaac yn ffermwr llawn amser yn Fferm yr Hafod, Llanrug.

Treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn Nhanycoed, ble y cymerodd ran amlwg yng ngweithgareddau y Capel a'r gymdeithas.

Yn 1988 symudodd i fyw at ei merch a'i wyres ac yno cafodd lawer o hwyl a chysur yng nghwmni ei theulu a chymdogion da. Bu'n byw yno hyd Pasg 2007 pan orfodwyd hi, oherwydd tor iechyd, i fynd i'r ysbyty, ond cafodd dreulio y pum mis olaf yng ngofal tyner, gofalus a hwyliog staff Cartref y Foelas, Llanrug.

Bu'r gwasanaeth angladdol yng

Nghapel y Rhos ar 22 Ionawr, dan arweiniad cysurllawn y Parchedig Marcus Robinson ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym Mynwent Llanrug.

Y prif alarwyr oedd Mair a Charles (merch a mab yng ngyfraith), Dilys (merch), Nia (wyres), Ian a Cath, Stuart a Shareen (wyrion a'u partneriaid), Lillie a Freddie (gor-wyrion).

Rhoddwyd y blodau gan y teulu a chasglwyd rhoddion i'w cyflwyno er cof at Gapel y Rhos, Llanrug. Trefnwyd yr angladd yn ofalus gan Dylan Griffith, Penisarwaun.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Iola Butler ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd yn dilyn y profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl a charedig. Diolch yn arbennig i staff Cartref y Foelas am eu gofal tyner, meddygon y Waunfawr am eu cymorth parod, Y Parchedig Marcus Robinson am wasanaeth cysurllawn ac i Dylan Griffith, Penisarwaun, am drefniadau angladd manwl ac urddasol.

Diolch hefyd i'r cymdogion ym Methel a thu hwnt am gyfoethogi ei bywyd ac am eu cymorth gwerthfawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs:
(01286) 650291

Dewis eang o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

GLANHAU CARPEDI
GYDA STIMVAK

ceir cymru

BETHEL

(01248) 670451

www.ceircymru.com

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 18 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfodol ac archfarchnadoedd Seisnig!'

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Gofrestrowyd yng Nghymru • Cwmni Gyfnyddig drwy Warrant 3420271



Ar Ben Arall y Lein

Difyr iawn oedd yr *Eco* y mis diwethaf, yn enwedig yr erthyglau yn ymwneud â'r torgoch. Dyma'n union mae'r Gymdeithas wedi bod yn ei wneud ers cryn dipyn o amser erbyn hyn. O'm rhan i fy hun, cefais fy mherswadio yn 1979 i fod yn Ysgrifennydd am flwyddyn i helpu allan, a dwi yma o hyd. Faint ydi hynna 'dwch - 29 mlynedd - mae rhai'n dweud, 'Mae'n amser i ti ymddeol, mi rwy'ti wedi bod wrthi'n rhy hir.' Bydd, mi fydd yn rhaid gwneud penderfyniad fel'n cyn bo hir.

Dros y blynyddoedd, mae cryn dipyn o newid wedi bod, ond un o'r pethau mwyaf difrifol yr ydym fel Cymdeithas wedi gorfod ei drin yw'r problemau sydd wedi codi oherwydd llygru Llyn Padarn. Pwy sy'n cofio'r flwyddyn 1992 pan newidiodd y llyn ei liw i wyrdd? Roedd yn debycach i swp pys. Fe gymerodd yr ACA, sef Cymdeithas Cadwraeth Pysgodfeydd, yr achos i fyny ar ran y Clwb, a'r cam cyntaf oedd comisiynu adolygiad ar wreiddyn y broblem drwy Brifysgol Bangor.

Roedd yr adroddiad a ddilynodd yn cadarnhau ein pryderon mwyaf fod y llyn yn troi yn *eutrophic*. Mae beth a ddilynodd wedi bod yn destun llawer o drafodaeth yn yr *Eco* dros y blynyddoedd, ond y penllanw oedd i'r Clwb ddwyn achos yn erbyn Dŵr Cymru am lygru'r llyn drwy waith carthffos Llanberis.

Fe gynhaliwyd yr achos yn y Llys Sirol yng Nghaer, ac ie, fi oedd yr un fu raid rhoi tystiolaeth ar ran y Gymdeithas.

Roedd pawb wedi cefnu arnom yn ystod y dyddiau tywyll hynny. Yr Awdurdod Afonydd, fel y gelwid hwy oedd, a sydd i fod, i warchod ein dyfroedd. Ond, chlywyd dim smic ganddynt i helpu'r achos - pob dim yn iawn, medda nhw. Doedd Cyngor Gwynedd ddim eisiau cael eu gweld yn helpu achos yn erbyn corff cenedlaethol - fe ofynnwyd i'r Cyngor am gymorth ariannol gyda'r achos gan mai nhw, wedi'r cwbl, yw perchnogion cryn dipyn o'r llyn - yr ateb oedd: Na, rydych ar ben eich hunan, bois.

Canlyniad oedd i'r Clwb golli'r achos oherwydd cymal ddi-osgoi yn y ddeddf arllwys carthffos. Ond, wrth gwrs, mi fu'n rhaid i'r cwmni ymgymeryd â chanllawiau llym ar arllwys o hynny ymlaen. I gyrraedd y nod yma bu'n rhaid adeiladu peiriant i dynnu phosphates o'r gweddillion cyn eu harllwys i'r llyn. Ni fu hyn yn effeithiol tan 1999-2001, ac ar ôl hynny mae pethu wedi gwella yn araf. Araf iawn ydyw gwelliant o'r fath.

Roedd y broblem yn effeithio ar y pysgod, ac nid yn unig y

torgoch oedd dan fygythiad ond hefyd y sewin, yr eog a'r brithyll brown. Roedd y bygythiad i'r torgoch yn anhygoel gan fod eu maint yn cynyddu - roeddym yn arfer cael rhyw dri i'r pwys, ond erbyn 1997 roedd eu maint wedi cynyddu'n agos i bwys yr un! Cefais un yn '97 yn pwyso pwys a thri chwarter, ac mae gennyf ddau yma wedi eu stwffio oedd yn bwys yr un. Diolch iddo, mae'r maint yn awr yn dod i lawr i beth oedd yn yr wythdegau, sy'n dangos o leiaf fod pethau'n dechrau gwella. Ac nid yn unig ym myd y torgoch, mae'r Seiont yn awr yn un o'r pum afon yng Nghymru sydd yn dangos gwelliant sylweddol. Mae rhywbeth positif yn digwydd o'r diwedd.

Hoffwn gyfeirio at y rhwydi a gafodd eu gosod gan y Brifysgol yn ystod Rhagfyr 2007 gan fy mod yn credu eu bod wedi cael eu gosod yn y fan anghywir. Yn ôl gwaith trwyadl y diweddar Dr Alistair Rogers, yng nghyfnod adeiladu gorsaf Dinorwic, roedd lle arbennig i osod y rhwydi yma. Mae arbrofion Asiantaeth yr Amgylchedd yn y blynyddoedd diwethaf wedi dal at leoliadau Dr. Rogers ac rwyf wedi bod yn dyst i gannoedd o dorgoch gael eu dal - a'u gollwng ar ôl eu mesur a'u pwyso - mae lluniau i gadarnhau hyn.

Be ydi'r dyfodol? Wel, i ddechrau, cael mwy o bysgotwyr lleol i ddefnyddio'r llyn. Mae pysgota wedi symud ymlaen, gyda physgota brithyll yr Enfys yn hynod o boblogaidd. Pysgota eog yn gwella gyda'r wefr arbennig o ddal Brenin yr Afon ar bluen.

Hefyd, efallai nad yw 'sgota torgoch yn talu cystal erbyn hyn, gan fod y clwb wedi cyflwyno rheol yn gwahardd eu gwerthu. Mae dadl o achos hyn ac mae'r Gymdeithas yn deall - dyna pam yr ydym yn ceisio gweithredu cynllun i'w magu yn ein deorfa fel bod cyflenwad ar gael i dai bwyta lleol. Mae torgoch i'w cael, wrth gwrs, yn yr arch-farchnadoedd, ond cynnyrch o Norwy ydynt, dim yr un peth â stwff lleol.

Buasai gwerth mawr mewn sefydlu Cymdeithas y Torgoch hefyd. Rydym wedi bod yn trafod cynnal Gŵyl y Torgoch ym mhentref Llanberis gydag arddangosfa o gelfi lleol, tywys rhai allan i 'sgota yn y dull traddodiadol, a chael cogydd neu gogyddes enwog i arddangos coginio pysgod ar lan y llyn. Ond rhaid sylweddoli mai clwb lleol yw'r Gymdeithas a rhaid targedu ein harian i wella'r 'sgota a'n isadeiledd - docs dim ar ôl i gynnal cyfres o ddigwyddiadau, er mor ddeniadol y buasai hynny. Ocs rhywyn cisiau cyfrannu tybed? Byddai'n atyniad ychwanegol i wythnos carnifal

Llanberis.

Buasai'n ddiddorol dros ben casglu'r holl wybodaeth sydd ar gael yn y fro am y torgoch. Lle da i ddechrau, efallai, fuasai'r erthygl yn y *Times*, Ebrill 1976, gan Richard Grilling, ble mae'n sgwrsio gyda'r diweddar Bob Jones, Brynrefail a Norman Closs Parry, Trefynnon. Yna dilyn gyda thudalen flaen yr *Eco*, Chwefror 1977, ac wedyn *Eco* mis Mawrth 1998, ble yr ymddangosodd rhan o adroddiad Richard Grilling. Ceisiwch hefyd gael gafael yn y

cylchgrawn *Y Naturiaethwr*, Mehefin 1997 a Rhagfyr 1999, ble mae adroddiadau arbennig gan Norman Closs ar sefyllfa Torgoch Padarn, fel ag yr oedd yr adeg hynny.

Wel dyna ni, tipyn o bregeth, ond rhaid oedd imi gael dweud fy nweud. Rwy'n gwir obeithio cael amser i groniclo'r holl wybodaeth cyn iddynt fynd yn angof - pechod mawr fuasai hynny.

Hwyl am y tro.

HUW PRICE HUGHES

Dyddiadur EVAN JONES Tŷ'r Mawn

Dyma'r nodiadau am Fawrth 1908.

6 Mawrth 1908: Marw'r Parch David Williams, Cwm y Glo yn sydyn wrth fynd am y trên.

8 Mawrth: Marw Thomas y Rector yn sydyn yn Llanllyfni wrth ddod o'r eglwys.

16 Mawrth: Claddu John I. Evans, Yanky Street, Llanberis.

A dyna'r cwbl sydd wedi ei nodi am Fawrth 1908, felly fe symudaf ymlaen at y flwyddyn 1922, ac ychydig iawn sydd wedi ei nodi am y flwyddyn hon hefyd.

2 Rhagfyr 1922: Marw Robert Hughes, Llain Glas.

26 Rhagfyr: Dynes wedi boddi ei hun yn y llyn wrth ymyl y twnel.

Fe af ymlaen i nodi ychydig o'r flwyddyn 1923.

5 Ionawr 1923: Priodi Tommy Owen, Castle View

24 Ionawr: Priodi Edwards, Coparetive.

25 Ionawr: Claddu David Evans.

3 Chwefror: Claddu gwraig John Jones, Barbar.

23 Chwefror: Claddu Griffith Jones, Gwenfro Stores.

2 Ebrill: Priodi Edwin Jones, Tan y Graig.

12 Ebrill: Priodi Ed. Roberts, Summer Hill.

19 Ebrill: Claddu John Owens, Bwlch, Cwm y Glo.

21 Ebrill: Claddu Hugh.

28 Ebrill: Claddu Robert Jones, Min Nant, ac hefyd claddu mab i Ellis Jones, Newton Street.

2 Mai: Claddu Jeffery Roberts, ac hefyd mab Harry Davies.

12 Mai: Claddu Michael Jones, Brithdir, ac hefyd yr un diwrnod claddu gwraig David Hughes, Cwm y Glo.

23 Mehefin: Claddu Lizzie Parry, Llainwen, ac eto heddiw marw Wiliam Gee, London Street.

27 Mehefin: Claddu William Charles Jones, Bryn Eglwys, cael ei ladd yn y chwarel dydd Gwener, y 23.

25 Gorffennaf: Priodi Kath Foulkes, Fron Goch.

29 Awst: Priodi Evan Williams, Mur Mawr.

R. ELWYN GRIFFITH

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

EISTEDDFOD YR URDD. Da iawn chi, holl blant y pentref a fu'n cystadlu'n ddiweddar yn Ysgol Brynrefail.

Diolch i Anti Eleri, Anti Eirlys a Mrs Evans am eu hyfforddi.

COFION. Dymunwn wellhad buan i Mrs Peri Evans, Hafod Olau, a dorrodd ei braich yn ddiweddar.

Hefyd i'w wyres, Cadi Murphy a fu hefyd yn yr ysbyty.

Dymuniadau gorau i bawb arall o'r pentref a fu'n wael yn ddiweddar.

BETI A'I PHOBL. Da iawn oedd clywed un o hogia'r pentref, Malcom Allen, yn cael ei gyfweled ar y rhaglen uchod yn ddiweddar. Roedd yn dda ei glywed yn ymfalchïo yn ei fagwraeth ym mhentref Deiniolen a'r dylanwad y cafodd ei deulu arno yn ystod ei yrfa ddisglair ar y cae pêl-droed.

DYMUNA Diane Jones, Glwt y Bont, ddiolch yn fawr iawn i staff, plant a rhieni Ysgol Gwaun Gynfi am y rhodd a'r dymuniadau da a dderbyniodd wrth adael ei swydd fel ysgrifennyddes yr ysgol.

Hoffai ddymuno'r gorau i'r ysgol a phob llwyddiant i'r dyfodol.

DYMUNA John Robert, 27 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ato ef a Gladys, dros y cyfnod y bu ef yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl iddo ddod adref. Carai hefyd ddiolch i feddygon a staff y Clinic yn Neiniolen ac Ysbyty Gwynedd am bob gofal.

DYMUNA Gareth, Theresia Grace a theulu Bro Deiniol, Deiniolen, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth fawr o golli mab ac ŵyr annwyl, William 4 oed, yn Tanzania, drwy amgylchiadau trist. DYMUNA teulu'r ddiweddar Dr Nora Marren, ddiolch o galon am y geiriau o gydymdeimlad a yrrwyd atynt yn dilyn ei marwolaeth yn Hydref 2006.

Yn anffodus, ni dderbyniodd y teulu y negeseuon ar y pryd, oherwydd aethant i gyd i ddwylo'r ysgutor, ble maent hyd heddiw. Diolch eto, Christine Dempsey.

CHWARAEON

A DAETH I BEN...

Dyna'n wir fu'r hanes i glybiau pêl-droed Llanberis, Llanrug a Bethel ar 'Ddydd Sadwrn Du' yn ddiweddar.

Mewn tymor siomedig o ran y gynghrair, roedd Llanberis wedi naddu canlyniadau da yng nghystadleuaeth Tlws Cymru. Roeddent yn ffyddiog o orchfygu tîm Rhos Aelwyd ar Ffordd Padarn, ond colli o 1-0 fu'r hanes. I ennill unrhyw gwpan rhaid wrth tipyn o lwc, ond doedd fawr ohono i'w gael. Bu cryn ddadlau am y gôl na chaniatawyd, gyda'r tîm cartref yn mynnu fod y bêl wedi croesi'r llinell gôl. Yn ôl at y gynghrair i'r Darans, a bydd rhaid elwa o'r gemau mewn llaw i arbed disgyn ar ddiwedd y tymor.

Cwpan Barritt oedd yn denu sylw Llanrug a Bethel. Bydd Llanrug yn siomedig o golli 1-0 draw yn y Bermo, er creu sawl cyfle. Yn sicr, roedd gan Llanrug gyfle da i gipio'r cwpan yma eleni. Dal i fyny â cheffylau blaen cynghrair Pentraeth Honda fydd yr her rwan.

Yn y rownd gyn-derfynol bydd y Bermo yn herio Bethesda, a chwalodd Bethel. Siom i'r dorf dda oedd anaf i gôl-geidwad Bethel cyn y gêm. Lliffodd y goliau yn gyson i rwyd Bethel, ond rhaid canmol safon chwarae yr Howgets. Hawdd gweld pam y maent yn geffylau blaen yn eu cynghrair, ac yn ffefrynnau i esgyn. Gallai'r tîm cartref ddysgu o ddull Bethesda o chwarae, yn enwedig y symud oddi ar y bêl, a'r pasio i draed.

Yn anffodus i Bethel, collwyd y gêm ganol wythnos draw ym Mhorthmadog, tîm sy'n ymgiprys, fel Bethel, am y bencampwriaeth. Gyda'r gemau cynghrair yn pentyrru yn y dyfodol agos, gobeithio y

gall Bethel gael 'ail wynt' a dychwelyd at y perfformiadau boddhaol a roddwyd trwy'r tymor.

* * *

Dymunwn yn dda i Andrew Williams a charfan dan 15 Bethel. Byddant yn herio Rhyl yn rownd gyn-derfynol Cwpan Gogledd Cymru y Sadwrn nesaf.

A FYDD CAMP LAWN?

Dyna'r cwestiwn pwysig ym myd y bêl-hirgron. Does dim amheuaeth fod Warren Gatland wedi dod fel chwa o awyr iach. Mae ei bendantwydd, ac efallai ei styfnigrwydd, yn amlwg yn apelio i'r cefnogwyr - os nad i'r chwaraewyr. Mae awyrgylch gwahanol yn y garfan o'i chymharu â theyrnasiad Gareth Jenkins. A oedd Jenkins yn rhy agos i'r chwaraewyr? A oedd rhai o'r hen benau â gormod o ddylanwad ar Jenkins?

Yn sicr, mae Gatland yn rhoi pwysau ar y chwaraewyr i brofi eu gallu ac, yn fwy pwysig, eu hunanddisgyblaeth ar y maes. Gyda threfniadaeth amlwg Shaun Edwards, mae mwy o bwrpas yn chwarae'r cochion. Hyd yn hyn, nid yw'r tîm wedi ildio y llif geisiadau fel yn y tymhorau cynt. Fesul gêm yw pregeth Gatland.

Ysgrifennaf y llith cyn gêm yr Eidal - tîm anodd eu curo erbyn hyn. Mae sgrym rymus ganddynt, fel y Saeson. Bydd cryn arsylwi ar yr agwedd yma o chwarae Cymru, gan ei fod yn dangos i ni a oes dyfnder o ddewis gennym yn yr agwedd hanfodol hon.

Oherwydd y newidiadau cyson yn y tîm dros y tair gêm hyd yn hyn, bu cryn drafod cadarnhaol am unwaith, a theimlaf nad oes yr un plwyfoldeb yn bodoli bellach. Cynrychioli gwlad yw'r nod, a'r bwriad yw rhoddi chwaraewyr yn y tîm am y rhesymau iawn.

Po fwyaf llwyddiannus yw'r tîm cenedlaethol, mae wedyn

yn dylanwadu ar y timau rhanbarthol. Buasai ennill Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, a'r Gweilch neu'r Gleision hefyd yn cipio Cwpan Ewrop, yn rhoi hwb sylweddol i'r gêm.

Fel pob camp, mae'n bwysig fod 'gwreiddiau' y gêm yn gadarn. Cefais sgwrs ag un o aelodau blaenllaw clwb rygbi Caernarfon yn ddiweddar. Soniodd yntau fel yr oedd yr agwedd wedi newid. Er bod y cymdeithasu yn bwysig o hyd, mae llawer mwy o sylw yn awr i ffitrwydd a meithrin sgiliau. Talodd deyrnged i agwedd 'broffesiynol' yr hyfforddwr, Ieuan Jones. Mae'n llwyddo i ddod â'r elfen o fwynhad yn ôl i'r gêm, yn enwedig ar noson hyfforddi oer a gwlyb. Os yw'r paratoi yn drylwyr yna mae'r perfformiad yn gwella.

Y bwriad yw sefydlu tîm lled-broffesiynol yn y gogledd i gystadlu ym mhrif adran Cymru erbyn tymor 2010. Mae her fawr felly i hyfforddwyr presennol y clybiau i sugno o brofiad Gatland, targedu chwaraewyr y dyfodol a gosod strwythr bositif i'r gêm. Yn yr un modd mae dyletswydd ar Undeb Rygbi Cymru i gefnogi rhanbarth y gogledd drwy gynnal cymhorthfeydd yma, ac yn wir chwarae ambell gêm dosbarth cyntaf yn y gogledd. Ydy rhanbarth y Sgarlets yn gwrando?

Neges fer i orffen. I'r llu ohonoch sy'n bwriadu llifo draw i Ddilyn ddechrau mis Mawrth, gobeithio eich bod wedi dechrau cynilo. Mae pris 'y du' wedi codi yn sylweddol, a sôn am godiad arall cyn bo hir. Welan ni chi yno!

I GLYBIAU CHWARAEON Y FRO

Y mae cwisis poblogaidd yn cael eu cynnal yn y Bedol ar nos Iau tan y Pasg eleni, a'r bwriad yw cynnal Cwis Chwaraeon i gloi y gyfres. Estynnir gwahoddiad, felly, i dimau chwaraeon y fro i greu tîm o

chwech ar gyfer yr ornest. Y gost fydd £1 yr aelod a bydd tlws ar gael ar gyfer y tîm buddugol.

Cofiwch y dyddiad, nos Iau, Mawrth 27 am 8.30pm. Dewch yn llw.

GWERTH AM ARIAN

Mae fy ymwneud i â'r byd chwaraeon wedi digwydd ar lefel lleol amaturaid. Yr un fu'r neges - ceisio am grantiau, ond yn y diwedd codi'r arian ein hunain. Cwis, raffl, arwerthiant, cinio chwaraeon a.y.y.b. Llawer o waith i godi swm cymharol fechan, a hynny mewn cystadleuaeth â'r llu o glybiau eraill sy'n brwydro am sylw nifer bach o noddwyr. Dim rhyfedd bod llawer yn gwrthwynebu 'talw' i chwaraewyr ar y lefel lleol.

Mor wahanol yw hi ar y lefel uchaf. Mae'r cwmnïau teledu yn brwydro am y cytundebau i ddangos Cwpan Ewrop (rygbi a pêl-droed). Sonnir am £100 miliwn. Aeth yn gost i rai gael Sky, heddiw mae angen Sky a Setanta. Mor wahanol pan oedd dim ond *Match of the Day*.

Pen draw hyn yw gwrthio'r prisiau i fyny, a'n troi yn wylwyr cadair esmwyth. Cefnogwyr ydym heb fyth ymweld - na siawns i ymweld - â meysydd 'ein tîm ni'. Ym myd rygbi Cymru heddiw, faint o'r gwylwyr cyson ar Sadyrnau sy'n gallu fforddio £40-£60 am docyn i Stadiwm y Mileniwm am gêm ryngwladol? I ble mae'r arian yn mynd?

Trist yw darllen na fydd clwb Tonmawr yn cael esgyn at yr 'hogia mawr' eleni am nad yw eu cyfleusterau yn ddigonol. Llangefni, ac eraill yn cael eu hanwybyddu am fod timau'r de yn gweld teithio i'r gogledd unwaith y flwyddyn yn rhy gostus. Oni ddylasai mwy o'r arian yma fynd i wreiddiau'r gêm? Beth mae meithrin y gêm yn wirioneddol feddwl?

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a Thcolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â **Gomer Roberts**
Ffôn: **01286 870462**
Symudol: **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc